

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

8/1985



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

CYMEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH, 1984-85
THE OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE, 1984-85

Llywydd/*President*: Mr W. EMRYS CLEAVER

Is-Lywyddion/*Vice-Presidents*:

Dr OSIAN ELLIS, Dr MOSTYN LEWIS,
Y Fonesig/*Lady* ENID PARRY, Y Fonesig/*Lady* AMY PARRY-WILLIAMS
Mr EMRYS BENNETT OWEN, Mrs G. MEGAN TIBBOTT

Cadeirydd/*Chairman*: Dr HYWEL GRIFFITHS

Is-Gadeirydd/*Vice-Chairman*: Mr ROBIN GWYNDAF

Pwyllgor Gwaith/*Executive Committee*:

Mr ARNOLD DAVIES, Miss MEINIR JONES, Mr JACOB MORGAN,
Miss MENNA THOMAS, Dr MEREDYDD EVANS, Mr EMRYS JONES,
Mr ROBIN BOWEN, Mr DAFYDD IDRIS, Miss MARIAN REES,
Miss NIA HOWELLS, Miss PHYLLIS KINNEY, Mr ROBIN TOMOS,
Mrs EUNICE BRYN WILLIAMS.

Ysgrifennydd Cyffredinol/*General Secretary*:

Mrs BUDDUG LLOYD ROBERTS,
Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth (076 671) 2096

Trysorydd/*Treasurer*:

Mrs FRANCES MÔN JONES,
Coed y Garth Lwyd, Llanfair Caereinion, Powys.
Ffôn: Llanfair Caereinion (0938) 810545

Ysgrifennydd Aelodaeth ac Is-Drysorydd/
Membership Secretary and Assistant Treasurer

Mr RHIDIAN GRIFFITHS,
Iscoed, Ffordd Caradog, Aberystwyth, Dyfed.
Ffôn: Aberystwyth (0970) 3401

Swyddog Cyhoeddusrwydd/*Publicity Officer*:

Mrs SHÂN EMLYN EDWARDS,
Coed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd/*Cardiff* (0222) 751469

Golygydd y Cylchgrawn/*Editor of the Journal*:

Mr D. ROY SAER,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd/*Cardiff* (0222) 569441

Archwiliwr/*Auditor*:

Mr H.F.J. CADWALADER

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
WELSH FOLK-SONG SOCIETY

ADRODDIAD REPORT

1.4.1984 – 31.3.1985

DALIER SYLW

PLEASE NOTE

Cynhelir CYFARFOD BLYNYDDOL y Gymdeithas uchod DDYDD SUL, 29 MEDI, 1985, am 11.30 o'r gloch ym Mhlas Gregynog, Powys.

THE ANNUAL GENERAL MEETING of the above Society will be held on SUNDAY, 29 September, 1985, at 11.30 am at Gregynog Hall, Powys

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH 1984 – 85
(Officers and Executive Committee 1984 – 85)

Llywydd (President): **Mr W. EMRYS CLEAVER**

Is-Lywyddion (Vice-Presidents):

Dr. OSIAN ELLIS	Y Fonesig ENID PARRY
Y Fonesig AMY PARRY-WILLIAMS	Mr. EMRYS BENNETT OWEN
Dr. MOSTYN LEWIS	Mrs G. MEGAN TIBBOTT

Cadeirydd (Chairman): Dr. HYWEL GRIFFITHS

Is-Gadeirydd (Vice-Chairman): Mr. ROBIN GWYNDAF

Pwyllgor Gwaith (Executive Committee):

Mr ARNOLD DAVIES	Mr ROBIN BOWEN
Miss MEINIR JONES	Mr DAFYDD IDRIS
Mr JACOB MORGAN	Miss MARIAN REES
Miss MENNA THOMAS	Miss NIA HOWELLS
Dr MEREDYDD EVANS	Miss PHYLLIS KINNEY
Mr EMRYS JONES	Mr ROBIN TOMOS
Mrs EUNICE BRYN WILLIAMS	

Ysgrifennydd (Secretary): Mrs BUDDUG LLOYD ROBERTS

Trysorydd (Treasurer): Mrs FRANCES MÔN JONES

Ysgrifennydd Aelodaeth ac Is-Drysorydd: Mr RHIDIAN GRIFFITHS

Swyddog Hysbysebu: Mrs SIÂN EMLYN EDWARDS

Golygydd y Cylchgrawn (Editor of Journal): Mr ROY SAER

Archwiliwr (Auditor): Mr H. F. J. CADWALADER

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Ni fyddai'n bosibl i mi gyflwyno fy adroddiad olaf o gadair y Gymdeithas heb gyfeirio at ein cyfaill annwyl, y diweddar Emrys Cleaver. Wedi hir lesgedd, bu farw Emrys ym mis Mawrth, a cholodd Cymru un arall o'i chewri. Fe delir teyrngedau iddo yn y Cylchgrawn, ond ystyriaf i fy hun yn ffodus droŷ ben fy mod wedi adnabod Emrys, y pregethwr a'r cerddor. Yn wir, wrth gyfarfod ag ef yng nghapel Broadmead, Bryste, y dechreuodd fy nghysylltiad i ag alawon gwerin – Emrys yn cenhadu dros yr hen alawon rhwng oedfaon wrth genhadu dros Grist. Mae ein colled yn enfawr, a chydymdeimlwn â Glenys a'r teulu oll yn eu galar.

Dyma fy nghyfle olaf i ddiolch i swyddogion y Gymdeithas am eu llafur caled a chyson, ac i apelio ar i chwi'r aelodau ymhlith eich cyfeillion er mwyn sicrhau rhagor o aelodau. Yn sgîl dathlu ein 75ain penblwydd, cynhyrchwyd llyfryn deniadol o hen ffotograffau, yn seiliedig ar arddangosfa a luniwyd yn Sain Ffagan. Bydd y Gymdeithas ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn y Rhyl, ac yna fe gynhelir y Cwrs Penwythnos blynyddol ym mhlas Gregynog.

Wrth gyflwyno'r gadair i Robin Gwyndaf, dymunaf iddo gyfnod hapus yn gadeirydd, a diolchaf i bawb a fu'n cynnal fy mreichiau yn ystod y tair blynedd a aeth heibio mor gyflym.

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL – 16 Medi, 1984

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn ystod y Cwrs Penwythnos ym Mhlas Gregynog. Cymerwyd y gadair gan y cadeirydd, Dr Hywel Griffiths. Estynnodd groeso i'r aelodau oedd yn bresennol.

Cyfeiriodd at y colledion a gafodd y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, sef y Cyn-Lywydd, Mrs K. Idwal Jones, Mrs Annie Lumley, Mr Walter Haydn Davies a Mrs Henry Williams. Pasiwyd i anfon cofion yr aelodau at y Llywydd, Mr Emrys Cleaver, a'r Is-Lywydd, Dr Mostyn Lewis. Hefyd Mr W. Rees Howells, aelod ffyddlon o'r Gymdeithas.

Ymddiheuriadau: Mrs Siân Williams, Mrs C. Simon, Mrs G. Morgan Jones, Mrs Margaret Owen, Mrs Alwena Morgan.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Blynyddol 1983.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at yr anhawster a grewyd eleni ynglŷn â'r babell ar faes yr Eisteddfod. Cafwyd gwybodaeth yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd fod y Ffederasiwn yn gyfrifol am logi'r babell a thalu'r gost. Yn anffodus, ni ymddangosodd enw'r Gymdeithas yn y rhestr unedau yn Rhaglen y Dydd ac achoswyd tipyn o anhwylostod i'r aelodau. Gobeithir mynd yn ôl at yr hen drefn yn Eisteddfod 1985. Awgrymodd Mr Roy Saer y byddai o fantais cael pabell Cymdeithas Cerdd Dant Cymru yn nes at rai Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a Chymdeithas Dawns Werin Cymru. Hysbysodd yr Ysgrifennydd iddi gael gair gyda'r Trefnydd, Mr Osian Wyn Jones, ynglŷn â'r mater.

Cafwyd ar ddeall gan yr Ysgrifennydd na chafwyd gwahoddiad gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru i drefnu'r Wyl Werin a gynhaliwyd yng Ngorseinion ym mis Hydref y llynedd. Darllenwyd llythyr o ymddiheuriad a dderbyniwyd oddi wrth yr Ysgrifennydd, Mrs Jean Huw Jones. Cynhelir yr Wyl eleni yng Nghaerfyrddin ar 19 Hydref. Ar gynnig Dr Meredith Evans, pasiwyd o blaid i gynrychiolaeth o'r ddwy Gymdeithas gyfarfod yn swyddogol i drefnu'r Gwyliau hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dr Meredydd Evans a Miss Phyllis Kinney am baratoi'r gyfrol *Canu'r Cymru*. Ategwyd y diolchiadau gan Dr Stephen J. Williams. Bwriada Dr Meredydd Evans a Miss Phyllis Kinney baratoi'r ail gyfrol y flwyddyn nesaf; 'roedd y ddau yn uchel eu canmoliaeth i Gwmni Gwynn am ei gydweithrediad wrth gynhyrchu'r gyfrol gyntaf.

Teimlai rhai o'r aelodau fod angen am lyfr o drefniadau ar batrwm *Lleisiau'r Werin*. Pasiwyd i'r Pwyllgor Gwaith drafod y mater. Yn ôl adroddiad Mr Emrys Bennett Owen ni fu datblygiad o gwbl ynglŷn â chyhoeddi cyfrol o drefniadau ar gyfer Blwyddyn Gerddorol Ewrob 1985; mae'r mater bellach yn nwylo panel pwyllgor cerdd Cyngor y Celfyddydau.

Cafwyd ar ddeall gan Mr Roy Saer y bydd yn cyhoeddi llyfryn erbyn y Nadolit a fydd yn cynnwys ei ysgrif ar hanes y Gymdeithas yn y Cylchgrawn ynghyd â lluniau o'r arddangosfa. Yn ôl Mr Rhidian Griffiths cynhelir arddangosfa dan y teitl "Cerddoriaeth Cymru" yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 1985.

Ni fu dim datblygiad ynglŷn â'r gwerslyfr ffidil werin.

Cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd am waith y flwyddyn. Bu nifer o weithgareddau i ddathlu trichwarter canrif sefydlu'r Gymdeithas. Ddechrau Awst gwelwyd cyhoeddi'r record *Caneuon y Siroedd* gan Gwmni Sain.

Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Frances Môn Jones, ynglŷn â'r fantolen a'r sefyllfa ariannol. Mae'r Gymdeithas yn ddyledus unwaith eto i haelioni Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru: mae'r grant a dderbynir yn help sylweddol tuag at gyhoeddi'r Cylchgrawn, cynnal y Cwrs a llogi'r babell ar y maes. Cyfeiriodd y Trysorydd hefyd at y grant a dderbyniwyd gan y Cyngor Llyfrau tuag at adargraffu *Caneuon Gwerin i Blant*. Derbyniwyd amryw roddion ariannol trwy garedigrwydd aelodau'r Gymdeithas.

Eleni cynigiwyd grant i ddau o bobl ifainc allu mynychu'r Cwrs; y ddau a fanteisiodd ar y cynnig oedd Miss Nia Howells a Mr Robin Tomos. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Siân Emlyn Edwards am roi cyhoeddusrwydd i'r Cwrs. Pwysleisiodd Mr Robin Gwyndaf y pwysigrwydd o ennill rhagor o aelodau i'r Gymdeithas. Cafwyd nifer o awgrymiadau gan yr aelodau i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Gymdeithas; bydd y Pwyllgor Gwaith yn eu hystyried yn fwy manwl. Pasiwyd i'r Pwyllgor Gwaith hefyd wneud trefniadau i gysylltu â'r cyrff addysgiadol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Roy Saer am gynhyrchu Cylchgrawn mor ddiddorol ac amrywiol eto eleni.

Penderfynwyd cynnal Cwrs Penwythnos 1985 ym Mhlas Gregynog ar 27 – 29 Medi.

Teimlai Mr Roy Saer y dylai'r aelodau ystyried codi'r tâl aelodaeth gan fod y Gymdeithasau eraill eisoes wedi gwneud hynny. Pasiwyd i godi'r tâl fel a ganlyn o 1 Ebrill 1985: Unigolion : £4.00. Gwŷr a Gwragedd : £6.00. Plant : £1.00.

SWYDDOGION 1984 – 85

Llywydd: Mr Emrys Cleaver
 Is-Gadeirydd: Mr Robin Gwyndaf
 Trysorydd: Mrs Frances Môn Jones
 Golygydd: Mr Roy Saer
 Archwiliwr: Mr H.F.J. Cadwalader

Cadeirydd: Dr Hywel Griffiths
 Ysgrifennydd: Mrs Buddug Lloyd Roberts
 Is-Drysorydd: Mr Rhidian Griffiths
 Swyddog Hysbysebu: Mrs Siân Emlyn Edwards

Darllenwyd llythyr gan Mrs Alwena Morgan yn gwneud cais am gael ei rhyddhau o'i swydd fel Ysgrifennydd Aelodaeth. Etholwyd Mr Rhidian Griffiths i ymgymeryd â'r swydd. Pasiwyd i anfon at Mrs Morgan i fynegi gwerthfawrogiad yr aelodau o'i gwasanaeth i'r Gymdeithas.

Y tri aelod i ymddiswyddo eleni yw Mrs G. M. Tibbott, Mr Alun Davies a Mr Wyn Thomas.

Etholwyd Miss Phyllis Kinney, Mr Robin Tomos, Miss Nia Howells a Mrs Eunice Bryn Williams i weithredu ar y Pwyllgor Gwaith. Etholwyd Mrs Tibbott yn Is-Lywydd; cafwyd gair o werthfawrogiad ganddi.

Daw tymor yr aelodau a ganlyn ar y Pwyllgor Gwaith i ben ym mis Medi ac ni ellir eu hailethol am flwyddyn arall: Miss Menna Thomas, Mr Jacob Morgan, Miss Meinir Jones, Mr Arnold Davies. Gwahoddir enwebiadau am bedwar aelod newydd a hefyd am Is-Gadeirydd; a dylai'r enwau fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn y Cyfarfod Blynnyddol ar 29 Medi. (Rhaid cael caniatâd y personau ymlaen llaw.)

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU / WELSH FOLK-SONG SOCIETY CYFRIF ARIANNOL AM Y FLWYDDYN HYD 30.4.1985

DERBYNIADAU (Receipts)

Mewn Llaw, Cyfrif Cyfredol	871.48
Mewn Llaw, Cyfrif Cadw	1451.36
Tâl Aelodaeth a Rhoddion	679.52
Cwrs Penwythnos 1984	1077.75
Grantiau	1000.00
Gwerthiannau	1764.09
Benthyciad Ffed. C.A.C	3000.00
Gŵyl Werin Cymru 1984	218.02
Llog Banc	93.72

£10155.94

TALIADAU (Payments)

Gweinyddiaeth	123.08
Cwrs Penwythnos 1984	1285.60
Argraffu	4888.50
Ffed. C.A.C. - Ad-daliadau	1500.00
Ffed. C.A.C - Ffi Ymuno	15.00
Eist. Gen. Y Rhyl, 1985	75.00
Llog Banc	.32
Sain (Recordiau) Cyf.	63.14
Pwyllgor Gwaith C.A.G.C.	5.00
Mewn Llaw, Cyfrif Cyfredol	655.22
Mewn Llaw, Cyfrif Cadw	1545.08

£10155.94

The above accounts are certified to be in accordance with the books and vouchers produced to me, and information supplied to me, and the closing bank balances have been verified by me.

Eagle House, Welshpool, Powys
 31 May 1985

H.F.J. CADWALADER, F.C.A.
 Chartered Accountant

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

8/1985

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	3	
Cyfranwyr/ <i>Contributors</i>	4	
Emrys	MEREDYDD EVANS	5
Emrys Cleaver: A Tribute	ALUN DAVIES	13
Deuair Fyrion ac Alawon	MEREDYDD EVANS	16
<i>(The Deuair Fyrion Metre and Its Tunes)</i>		
Melus-Seiniau Cymru	DANIEL HUWS	32
<i>(The Melus-Seiniau Cymru Manuscript)</i>		
Caneuon/ <i>Songs</i>	PHYLLIS KINNEY	51
1. Y Gini Melyn Bach		51
2. Ffair Dinas yr Haf		52
3. Lladd y Weirglodd Wair		53
4. Chwarter Tŷn		54
5. Mae'r Wythnos yn Hir		55
6. Mi Fuais yn Medi'r Cynhaef		56
7. Di Didl Lan		57
8. I Ysgafnhau Ein Gwaith		58
Newyddion Cwta		59
<i>News in Brief</i>		60

Y Cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of their Contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd/*Editor*: D. ROY SAER —

Adran Bywyd Diwylliannol, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Department of Cultural Life, Welsh Folk Museum, St Fagans, Cardiff

ISBN 0 9510307 2 8

*Cysodi: Mei/Argraffu: Argraffdy Arfor
Cynllun clawr: D.I. Arwel Hughes*

Llun clawr (trwy garedigrwydd Amgueddfa Werin Cymru):

Y ddefod galennig yn Llangynwyd, Morgannwg, tuag 1908. Tynnwyd y llun gwreiddiol gan Frederic Evans.

Cover photograph (by courtesy of the Welsh Folk Museum):

The New Year calennig custom at Llangynwyd, Glamorgan, around 1908. Original photograph taken by Frederic Evans.

GOLYGYDDOL

Ein dyletswydd drist y tro hwn yw gorfod cofnodi marwolaeth ein Llywydd, gŵr a fu'n un o brif bileri'r Gymdeithas fyth er cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Drwy gydol afiechyd hir ni phylodd ei ddiddordeb yn ein gweithgarwch, ac ni all y Gymdeithas fod yn hollol yr un fath wedi colli ei arweiniad. Gyda diolch am ei wasanaeth ymroddedig y cyhoeddwn yn awr ddwy deyrnged iddo, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig a'i deulu.

Rhoir gweddill y rhifyn i ddwy erthygl arloesol — y naill, gan Dr Meredydd Evans, yn trafod mesurau a thonau cynnar a'r llall, gan Mr Daniel Huws, yn cloriannu'n fanwl ar lawysgrifau hollbwysig y casglwr "Ifor Ceri". Cynhwysir, i gloi, wyth gân a ddetholwyd gan Miss Phyllis Kinney o lawysgrifau anghyhoeddedig.

Unwaith yn rhagor, cyhoeddir ein Cylchgrawn trwy gymorth caredig Cyngor Celfyddydau Cymru.

EDITORIAL

Our sad duty this time is to record the death of our President, a man who was one of the Society's main pillars from the period of the Second World War onwards. Throughout a long illness his interest in our activities never waned, and the Society can not be quite the same without his guidance. In gratitude for his dedicated service we now publish two tributes to him, and we extend our sincere condolences to his wife and family.

The remainder of this issue is given to two pioneering articles — the one, by Dr Meredydd Evans, discussing early metres and tunes and the other, by Mr Daniel Huws, offering a detailed assessment of the vitally important manuscripts of the collector "Ifor Ceri". We include, finally, eight songs selected by Miss Phyllis Kinney from unpublished manuscripts.

Once more, our Journal is published through the kind assistance of the Welsh Arts Council.

CYFRANWYR/CONTRIBUTORS

MEREDYDD EVANS, PHYLLIS KINNEY

Prif gyfranwyr y cylchgrawn hwn yn ystod blynyddoedd diweddar, a chyd-olygyddion y ddau gasgliad safonol *Caneuon Gwerin i Blant* (1981) a *Canu'r Cymry* (1984).

This journal's main contributors in recent years, and joint editors of the standard collections Caneuon Gwerin i Blant (Folk Songs for Children, 1981) and Canu'r Cymry (Songs of the Welsh, 1984).

ALUN DAVIES

Un o olygyddion *Caniedydd yr Ifanc* (1980). O safbwynt perfformio ac ymchwilio bu'n ymwneud yn arbennig ag emynyddiaeth a charolau Nadolig yng Nghymru.

An editor of Caniedydd yr Ifanc (1980). In both performance and research he has been especially involved with Welsh hymnology and Christmas carols.

DANIEL HUWS

Ceidwad yr Adran Lawysgrifau a Chofnodion, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn dra phriodol, cyhoeddodd amryw erthyglau ynglŷn â llawysgrifau Cymreig sy'n cynnwys cerddoriaeth draddodiadol.

Keeper of the Department of Manuscripts and Records, National Library of Wales. He has, appropriately, published several articles concerning Welsh manuscripts that contain traditional music.

Rywbyrd yn ystod hanner cyntaf y saithdegau, ac yntau yn graddol ymgryfhau wedi'r trawiad a gafodd ar ei galon yn 1970, aeth Emrys ati i ddechrau sgrifennu ei hunangofiant. "Stori 'Mywyd'" oedd y pennawd a ddewisodd ond, yn anffodus, prin pedair tudalen a sgrifennwyd o'r stori honno gan yr un a fu'n ei byw mor afieithus a diffwdan o'i chychwyn yn Sir Gâr hyd ei diwedd ym Morgannwg.

Mab ffermdy Maes-y-bryn ydoedd, ym mro Maes-y-bont, rhan o'r ardal hanner amaethyddol a hanner ddiwydiannol honno sy'n gorwedd rhwng Dyffryn Tywi a'r gweithfeydd glo caled. Fe'i ganwyd ar Hydref 11eg, 1904; ei dad, William Cleaver, yn Albanwr o ran tras, gyda'i hynafiaid wedi dod yn feiliaid i ystadau Cawdor, a'i fam yn ferch i lowr a thyddynnwr o Ben-y-waun. Foelgastell. Yr oedd hi, sef Ann Williams, yn un o un ar hugain o blant, a phan briododd â William Cleaver gweithiai fel morwyn "fach" ar ei fferm. Roedd tuag wyth mlynedd ar hugain rhyngddynt. Ganwyd iddynt dri o blant ond bu'r ddau gyntaf, bachgen a merch, farw'n ifanc. Emrys, felly, oedd "y cyw melyn olaf" a chafodd, chwedl yntau, ei "sbwyllo'n lân, yn enwedig gan fy mam".

Ymfalchiai Emrys yn ei rieni. Derbyniodd oddi wrth ei dad yn arbennig ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth a'i ymrwymiad dwrn i fywyd y capel. Clywais ef yn dweud droeon bod ei dad yn feistr ar ddarllen Hen Nodiant ac iddo ddod y cyntaf yn yr ardal i feistrioli'r Sol-ffa yn ogystal. Wrth fynd trwy rai o bapurau'r mab yn ddiweddar deuthum ar draws tystysgrif Sol-ffa y tad, dyddiedig Tach. 20fed, 1869, a diatau gennyf ei bod yn ddogfen brin o'i bath erbyn hyn. Hoffai Emrys osod y mater hwn yn achyddol: roedd ei dad yn un o ddisgyblion Gwynoro Davies, a oedd yn ei dro yn ddisgybl i arloeswr Tonic Sol-ffa yng Nghymru, Eleazar Roberts. Wle'r ysfa Gymreig i osod trefn ar y cenedlaethau yn ei hamlygu ei hun! Am y capel: yr oedd ei dad wedi ei godi'n flaenor yn ŵr ifanc a bu'n amlwg ym mywyd crefyddol ei fro gydol ei oes faith. Ymfalchiai William Cleaver yn nhraddodiad crefyddol cyfoethog ei sir ac yr oedd Eglwys Llanlluan fel kannwyll ei lygad. Gofalodd fod ei fab yn meddiannu'r etifeddiaeth; gwerthfawrogodd ac anwesodd yntau hi.

Tra siaradai Emrys am ei dad gyda chryn edmygedd, siaradai am ei fam bob amser gyda chynhesrwydd anarferol. Roedd Ann Cleaver, i bob pwrpas, yn Gymraes uniaith, a hynny mae'n debyg am na chafodd ragor na rhyw wythnos o ysgol gydol ei bywyd. Hi oedd "cof" y teulu, i bob golwg, a chydai hi yr oedd Emrys mewn cysylltiad bywiol â'r "traddodiad llafar" y mae sôn amdano byth a beunydd yng nghyfarfodydd y

Gymdeithas hon. Ond mawrygai hi'n fwyaf neilltuol am ei charedigrwydd a'i chroeso yn ei chartref. Etifeddodd yntau yr un nodweddion a bu'n ddigon ffodus, yn nes ymlaen mewn bywyd, i rannu ei wynfyd a'i wae â gwraig arall a feddai ar yr un grasusau. Deuwn at hynny ymhen yrhawg.

Yn blentyn, aeth Emrys i ysgol gynradd Maes-y-bont, ac yna'n llencyn i Ysgol Sir Llandeilo. Mae'n wir am lawer plentyn dawnus iddo ef neu hi ddechrau amlygu eu doniau yng ngweithgaredd cymdeithasol rhyw ysgol neu'i gilydd, ond yn achos mab Maes-y-bryn digwyddodd hynny yn bennaf yng nghyswllt gweithgareddau'r capel. Yno y ffynnai canu ac actio ac erbyn ei fod yn un-ar-bymtheng mlwydd oed yr oedd yn organydd yr achos, yn arwain côr ac, ymhen ychydig amser, yn cynhyrchu dramâu. Ymestyniad naturiol o'i swyddogaeth yn ei fro, felly, oedd yr actio a'r canu yn yr ysgol yn Llandeilo. Diwylliant y pentref, yn hytrach na diwylliant yr ysgol, oedd y ffactor ffurfiannol bwysicaf a dychon bod hyn yn esbonio, i raddau o leiaf, y pwyslais mawr a osodai bob amser ar ddysgu trwy brofiad. Nid ei fod yn dibrisio addysg ffurfiol. I'r gwrthwyneb; ond ni syniai amdani chwaith fel alpha ac omega y broses o addasu person i fyw'n arwyddocaol ac i aeddfedu'n braf.

Hyd y gellir barnu, digon digynllun, onid mympwyol yn wir, a fu ei gwrs addysg ffurfiol ef ei hun pan yn llanc. Wedi iddo benderfynu cefnu ar Ysgol Llandeilo bu'n gweithio gartref ar y fferm am gyfnod ac yna'n cario'r post o gwmpas gwlad. Cyfnod byr wedyn yn Ysgol Sir Llanymddyfri cyn troi unwaith yn rhagor i gario'r post. Ond tua'r amser hwn daeth i deimlo tynfa naturiol tuag at y weinidogaeth, a diamau i hyn gael ei gyfnerthu gan sawl anogaeth garedig oddi wrth weinidog a diacon, cyfaill a chymydog. Arweiniodd hyn ef i ymaelodi fel myfyriwr yn Myrddin College, Caerfyrddin, sefydliad a oedd y pryd hwnnw'n paratoi disgyblion ar gyfer derbyniad i'r Brifysgol, ac wedi iddo lwyddo yn ei arholiadau yno aeth ymlaen, yn 1928, i Goleg y Brifysgol, Caerdydd. Yn nhref Caerfyrddin hefyd cafodd gyfle i ddod i adnabod Haydn Morris ac i'w hyfforddi ganddo mewn cerddoriaeth. Chwaraeodd ran mewn cynhyrchiad gan Haydn Morris o'r opera "Blodwen"; tystiolaeth bellach i'w ymwneud parhaus â gweithgareddau tu allan i furiau'r sefydliadau ffurfiol. Ni chaniataodd amrywiaeth ei ddiddordebau iddo erioed ei gyfyngu ei hun i un set o dresi.

Bu yng Nghaerdydd o 1928 hyd 1932, a graddio'r flwyddyn honno, cyn symud i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ac yna, ymhen yrhawg, i Goleg Y Bala, yn 1935-36, lle daeth ei gwrs ffurfiol fel myfyriwr diwinyddol i ben yn llwyddiannus. Cyfnod prysur a chyffrous neilltuol oedd cyfnod Caerdydd yn ei hanes; yma y dechreuodd ei yrfa hir a disglair fel darlledwr, a diddorol yw sylwi mai yn ei swydd fel canwr caneuon gwerin y cymerodd y cam cyntaf ar yr yrfa honno. Fel hyn y bu. Yn 1930 cynhaliwyd Eisteddfod Ryng-golegol y Brifysgol ym Mangor a chipiodd Emrys y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y canu gwerin: canodd "Mab

Annwyl Dy Fam” a “Gwn Dafydd Ifan”. Y flwyddyn honno hefyd penderfynodd awdurdodau'r BBC yng Nghymru gyflwyno rhaglen yn cynnwys detholion o blith enillwyr yr eisteddfod honno, gydag Emrys yn eu mysg. Dyna sut y daeth i'w gael ei hun mewn sefyllfa y bu ynddi wedyn gannoedd o weithiau — yn nhawelwch llethol stiwdio glösa'r meicroffon oer yn rhythu arno. Ni chafodd lwy'r wared erioed ag arswyd y profiad cyntaf hwnnw. Dyna pam y paratiai mor ofalus bob amser ar gyfer darllediad, gan farcio ei sgript mor fanwl gyfnewin ag unrhyw saer yn mesur ei bren. Nid oedd ganddo amynedd â darlledwyr haerllug, ffwr'-a-hi. Clywais ef yn adrodd sawl tro sut y daeth rhai o'i gyfoedion ynghyd yn Sir Gâr i wrando ar y darllediad cyntaf hwnnw. Mae'n debyg bod radio, â lowdspicar ynglŷn â hi, yn perthyn i Evans y Barbwr yng Ngors-las, ac i'r fan honno yr heidiodd y cwmni ar y noson nodedig er mwyn clywed un o fechgyn y fro yn canu o bellter gryn drigain milltir i ffwrdd! Cyn bo hir chwaraeai ran mewn drama radio a ddarlledwyd o Gaerdydd, sef “Tros y Dŵr”, gan W.J. Gruffydd, gyda'i fab, Dafydd Gruffydd, yn ei chynhyrchu. Felly y cafodd Emrys ei hun ymysg actorion radio cyntaf Cymru ac yr oedd wrth law unwaith yn rhagor pan ddarlledwyd un o'r dramâu teledu Cymraeg cyntaf, flynyddoedd yn ddiweddarach, sef “Y Gymwynas Olaf”, gan John Ellis Williams.

Arloesodd hefyd ym myd canu ac adloniant ysgafn ar y radio, yn arbennig felly wedi i Sam Jones ddod i Fangor yn 1935. Yn ystod ei flwyddyn olaf yng Ngholeg Y Bala cafodd gwmniaeth afieithus nifer o wŷr a ymddiddorai, fel ef ei hun, mewn ceisio diddanu cynulleidfaoedd cefn gwlad. Heb fod ymhell o'r Coleg, hefyd, trigai (oni byddai ar rai o'i grwydriadau mynych o gylch y wlad) un o gymeriadau llwyfan mwyaf arbennig y Gymru Gymraeg, Llwyd o'r Bryn. Y canlyniad fu uno'r Sarnau a'r Bala Fethodistaidd mewn parti noson lawen (nid heb brotest o du rhai o'r seintiau!) ac ymhen dim amser yr oedd Sam yn eu cyflwyno i'r genedl fel “Hogia'r Gogledd”. Dyna'r pryd y dechreuodd Emrys ddod yn enw teuluol yng Nghymru. Yr oedd ganddo un fantais amlwg fel darlledwr, sef llais ysgafn ac arddull hoyw na ellid eu camgymryd am eiddo rhywun arall. Digon iddo ganu un bar ac fe wyddai'r gwrandawr ar unwaith ar bwy yr oedd yn gwrando. Fel canwr caneuon ysgafn perthynai iddo agosatrwydd unigryw. Anwylai ei eiriau a'i feicroffon a deuai'n agos lawer tro at lafarganu brawddegau. Gallaf ei glywed y funud hon yn rhyw gwyno canu “Medda Nhw”, yn gymysgfa gywrain o bruddglwyf a digrifwch. Oedd, yr oedd iddo ddawn arbennig fel canwr radio. Swyddogaeth arall a gyflawnwyd yn fedrus iawn ganddo oedd cyflwyno rhaglenni, yn arbennig gyfresi megis “Aelwyd y Gân” a “Gwŷr y Gân”, ac o'i waith gofalus a dygn yn paratoi ar gyfer rhaglenni felly y tarddodd y ddau lyfr a gyhoeddwyd ganddo, *Gwŷr y Gân* (a ryddhawyd hefyd dan y pennawd Saesneg *Musicians of Wales*) a *D. Vaughan Thomas*.

Ar ddiwedd ei flwyddyn yn Y Bala derbyniodd Emrys alwad i weinidogaethu yn Eglwys Y Waun, Bodffari, Dyffryn Clwyd, ond cyn ymgymryd â'r gwaith yno bu'n ddigon ffodus i ymbriodi â Glenys Rees, hynny ar Hydref 8fed, 1936, yng Nghapel Cross Inn, Y Dryslwyn. Fel un o'r ardal ddymunol honno aethai Glenys hithau i Ysgol Sir Llandeilo; yn wir, yr oedd yno yn yr un cyfnod ag Emrys ond bod y gwahaniaeth blynnyddoedd rhyngddynt yn ymddangos yn enfawr ar y pryd! Cyfarchent ei gilydd, a dyna'r cyfan, gan gyfarfod yn achlysurol wedi hynny mewn eisteddfod neu gyngerdd lleol. Eithr tua 1930, a hynny yn eisteddfod leol Llandeilo, sylwodd Glenys bod Emrys yn ei llygadu â mwy o ymroddiad nag arfer! Ar y pryd yr oedd hi'n athrawes yng Nghwrt-henri ond yn rhydd ei llaw a'i chalon. Cyn bo hir, roedd cryn fynd a dod rhwng Caerdydd a'r Dryslwyn.

O gychwyn eu bywyd ynghyd ym Modffari bu'r ddau yr un mor brysor â'i gilydd yn gwasanaethu'r cymdogaethau, gan dreulio tua dwy flynedd ar hugain yn gyfan yn Nyffryn Clwyd, pymtheg ohonynt ym Modffari ei hun a'r saith arall yn Rhuthun. Cyfnod cyfoethog a lliwgar iawn oedd hwn yn hanes Emrys, cyfnod a welodd batrwm nodweddiadol ei fywyd ar ei fwyaf graenus; ymestynnai ei ddiddordebau i lu o gyfeiriadau a dichon mai troi at ei grynhoad ef ei hun o'r cyfnod a fyddai orau yma:

Gwneud popeth. Y Weinidogaeth, pregethu, darlithio, cynnal ysgolion nos, darlledu, nosweithiau llawen. 'The Sporting Parson' medde rhywun amdanaf yr adeg honno; mewn dyddiau pan na fydded Pregethwy'r yn gwneud dim ond pregethu a gweinidogaethu.

Yn rhyfedd iawn, anghofiodd nodi un gweithgarwch a gysylltir yn arbennig ag ef nid yn unig yn nhiroedd bras Dyffryn Clwyd ond hefyd yng Ngogledd Cymru yn gyffredinol, sef ei waith gyda Cwmni Drama Bodffari. Dylai rhywun fynd ati ar fyrder, cyn iddi fynd yn rhy ddiweddar, i sgrifennu'r bennod hon yn hanes y theatr amatur yng Nghymru. Gresyn, yn wir, na fyddai Emrys ei hun wedi ei sgrifennu; o'i gwmpas ef, yn bennaf, y try'r digwyddiadau. Nodaf ddau bwynt diddorol yn unig. Yn gyntaf, mae'n amlwg bod y Cwmni yn cael ei drefnu'n hynod o effeithiol gan ei swyddogion oherwydd cadwyd taflenni ariannol yn ofalus dros gyfnod hir o flynyddoedd, a dengys y taflenni hynny y byddid yn rhannu cyfran dda o elw blynyddol y Cwmni rhwng yr actorion. Gwnaed cais pendant felly i gydnabod, hyd y medrid, bod yr actor, fel y gweithiwr, yn haeddu ei dâl. Yr unig gwmni amatur arall y gwn amdano a weithredai'r un egwyddor, a hynny cyn bodolaeth Cwmni Bodffari, oedd cwmni drama John Ellis Williams ym Mlaenau Ffestiniog. Yn ail, hoffai'r Cwmni neilltuol hwn ychwanegu comedïau newydd at ei *repertoire* yn gyson ac fel hyn y daeth i fod gyfres o ddramâu ysgafn wedi eu creu gan Emrys R. Jones, dramodydd newydd sbon danlli nad oedd cefnogwyr y

theatr yng Nghymru yn gyfarwydd ag ef o gwbl. O dipyn i beth daethpwyd i ddeall mai cyfuniad ydoedd o ddau berson tra chyfarwydd, Emrys Cleaver a Gwilym R. Jones!

Daeth gwastad arall o weithgaredd i ran Emrys yn Nyffryn Clwyd yn ogystal, sef dysgu cerddoriaeth yn yr ysgolion, yn Ysgol Uwchradd Dinbych i ddechrau, ac yna yn Ysgol Uwchradd Llanelwy. Ond rhaid dod yn awr at rywbeth a ddigwyddodd tua dechrau'r cyfnod hwn ym Modffari, gan fod hynny'n agor pennod newydd mewn gwirionedd ym mywyd Emrys a honno'n bennod sy'n sylfaenol bwysig o safbwynt canu gwerin Cymru. Yn bur fuan ar ôl iddo symud i Ddyffryn Clwyd aeth i bregethu'r Sul yng Nghaerwys. Fe'i croesawyd i ginio ym Mhlas Penucha gan y Fonesig Herbert Lewis, ac yn ei dull union ei hun gwnaeth yn eglur iddo y byddai'n llawer rheitiach iddo ganu caneuon gwerin Cymru na'r sothach ysgafn a genid gan "Hogia'r Gogledd!" Pwysodd arno i gysylltu â Dr J. Lloyd Williams, a drigai ar y pryd yn Rhuthun. Esboniodd Emrys iddi ei fod eisoes yn ymhoffi yn yr hen ganeuon ac addawodd y byddai'n ymweld â Rhuthun ar unwaith. Dyna'n union a wnaeth. Fel hyn y daeth i gysylltiad agos â dau o brif gymwynaswyr dyddiau cynnar ein Cymdeithas, gan ymaelodi ynddi yn ddiymdroi, cam a ddaeth ag arwyddocâd newydd i'w fywyd ef ei hun ac un a ddaeth yn arwyddocaol iawn i'r Gymdeithas hithau yn nes ymlaen.

Yn 1945 penderfynodd Emrys roi o'r neilltu waith ffurfiol y weinidogaeth ond gan barhau i bregethu'n gyson, dysgu cerddoriaeth, a darlledu yn ôl y galw. Mewn gair, trodd yn hunan-liwtiwr, ac felly y dewisodd ennill ei fara beunyddiol weddill ei oes, gyda chyfraniad sylweddol Glenys hithau i'r fenter, bid siwr; ailymaflodd hithau, ymhen amser, yn ei swydd fel athrawes.

Blwyddyn hynod o arwyddocaol yn hanes y ddau ohonynt oedd 1950. Dyna pryd y daeth Ann i'w bywyd ac o'r funud y daeth, trodd y bywyd hwnnw o'i chylch hi a'i phethau. Tua'r amser hwn, hefyd, symudasant eu cartref i Ruthun ac yna, yn 1958, i Heol Marlborough, Caerdydd. Dyma ddechreuad datblygu Y Westfa, cartref a ddaeth yn gyrchfan i lu o Gymry dros gyfnod o bymtheng mlynedd, aelwyd groesawgar lle gallech fod yn siwr o gwmniaeth ddifyr, prydau bywd â gafael ynddynt, a gloywder glân ar bob dodrefnyn o'ch cwpas. Arwydd o agosatrwydd y lle a'i berchenogion oedd iddo gael ei fedyddio ar fyr dro yn "Cleaver's Arms". Cafodd y teulu amser bywiog a phrysur ryfeddol yno am gryn ddeuddeg mlynedd ond yna, yn 1970, daeth argoel o falltod y blynyddoedd diwethaf hyn yn hanes Emrys. Cafodd drawiad ar y galon, ac ymrodd Glenys i weini arno am fisoedd blin yn y cartref yn Heol Marlborough. Adenillodd dir ond daeth yn amlwg iddynt nad oedd yn bosibl bellach i ddal ymlaen â'r gwesty. Felly, yn 1973, wele symud drachefn, i Faes y Bryn, yn Heathway. Erbyn 1975 cafwyd bod Emrys yn dioddef gan gancr yn y gwddf ac am rai wythnosau bu'n mynd a dod yn gyson i Felindre, Yr

Eglwysnewydd, am driniaeth radiwm. Yn syfrdanol, daeth drwy hyn yn llwyddiannus. Ond yr oedd gwaeth i ddod. Ac yntau ar fin cychwyn i Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi, yn 1976, cafodd drawiad difrifol iawn ar ei galon a bu'n rhaid ei ddwyn i Ysbyty'r Mynydd Bychan, lle y bu am gyfnod hir. O hynny ymlaen bu'n gyfyng arno droeon, y corff yn dirywio dan amryw gernodiau, a dyddiau a nosau yn rhedeg i'w gilydd yn ddiwahaniaeth. Cofia'r rhai hynny ohonom a ymwelai ag ef o dro i dro ddau beth yn dda: ei ymgais ddewr ef bob amser i ymateb i'r ymweliad, a phresenoldeb tawel Glenys. Bu ei deulu'n dŵr iddo: Glenys, Ann, Roger a'r wryon bach Esther ac Emyr.

§

Bernais y byddai braslun o hynt a gyrfa amryliw Emrys yn dderbyniol gan ddarllenwyr y Cylchgrawn hwn. Ceisiaf bellach, yn fyr a chryno, nodi arbenigrwydd ei gyfraniad i draddodiad gwerin Cymru.

(i) Bu'n dra effeithiol fel poblogeiddiwr caneuon gwerin. Darlithiodd lawer arnynt mewn cymdeithasau diwylliannol a dengys nodiadau'r darlithiau hynny'n amlwg mai ei brif amcan wrth eu traddodi oedd cael gan wrandawyr *fwynhau*'r caneuon. Ar *ganu*'r caneuon y mae'r pwyslais yn ddieithriad. Gwnaeth ddefnydd helaeth o'r radio fel cyfrwng i boblogeiddio'r caneuon a cheisiodd ddylanwadu cymaint ag a allai ar gynhyrchwyr y cyfrwng i gynnwys y caneuon mewn rhaglenni a llunio cyfresi yn seiliedig arnynt. Ceisiodd ddefro diddordeb ei ddisgyblion cerdd ynddynt yn ogystal.

(ii) Bu ynglŷn â dwy daith gasglu, un yng nghwmni'r Gwyddel diddorol hwnnw, Seamus Ennis, a'r llall yng nghwmni Peter Kennedy. Fel hyn y cafwyd ar dâp nifer o ganeuon gan John Thomas, Ben Phillips ac Andrew Thomas, er enghraifft. Adwaenai Emrys lawer o'r hen gantorion a gwnaeth a allai i'w cael hwythau i gyflwyno eu caneuon ar y radio. Mae gennyf, er enghraifft, le da i gredu mai o ganlyniad i awgrym gan Emrys y cyflwynwyd y gyfres ragorol honno, flynyddoedd lawer yn ôl bellach, pan gafwyd pobl megis Bob Roberts, John Thomas, Eos Gwynant a John Morris i ganu rhai o'r hen gerddi a garent, hynny i gyfeiliant telynor ifanc ar y pryd o'r enw Osian Ellis. A ches innau'r fraint o ganu rhai caneuon yn eu cwmni. Yn ffodus cadwyd recordiadau o rai o'r rhaglenni hynny.

(iii) Yn ei dro bu'n Drysorydd, yn Ysgrifennydd ac yn Llywydd y Gymdeithas; arwydd o ymddiriedaeth yr aelodau ynddo. Yn wir, erbyn y chwedegau a'r saithdegau cynnar ni fyddai'n ormod dweud mai ef, yn fwy nag unrhyw berson arall, a gynrychiolai'r Gymdeithas yng ngolwg y cyhoedd. Ni ddylid chwaith anghofio am y cymorth a roddodd i Olygydd Cylchgrawn y Gymdeithas gyda rhai o'r rhifynnau

a geir yng nghyfrolau IV a V.

(iv) Diamau mai yn ei swyddogaeth fel Ysgrifennydd y cyflawnodd ei gamp fwyaf, a hynny trwy arwain yn y gwaith o sefydlu'r gyfres o Gyrsiau Bwrw Sul blynyddol sydd wedi mynd yn gymaint rhan o waith y Gymdeithas fel na ellir meddwl amdani ar wahân iddynt, bron. Cynhaliwyd y cyntaf yn Y Barri yn 1963. Dangosir arwyddocâd hyn oll yn ysgrif gampus ein golygydd presennol, "Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1908-1983" (*Canu Gwerin*, 6/1983), a digon yw cyfeirio sylw darllenwyr at honno i brofi mor drom yw ein dyled fel Cymdeithas i Emrys. Bu ei ymroddiad a'i ffydd ef yn arfau gloyw iawn yn ystod y cyfnod a ddisgrifir gan D. Roy Saer fel cyfnod y "Brwydro".

(v) Yr oedd yn un o gyd-sefydlwyr Cymdeithas Ddawns Werin Cymru a bu'n Drysorydd a Chadeirydd y Gymdeithas honno yn ogystal, gan arwain, unwaith yn rhagor yn y gwaith o sefydlu'r Wyl Werin a gynhelir ar y cyd yn flynyddol gan y ddwy Gymdeithas.

§

Bu farw Emrys ar ddydd Sul, Mawrth 17eg, 1985, yn bedwar ugain mlwydd oed, ac wrth imi geisio llunio teyrnged fer iddo ar ddydd ei angladd daeth i'm bryd mor hoff oedd o "englyn a thelyn a thôn". Ymhyfrydodd yn y rhain erioed. Ceisiais lunio englyn iddo, a dyma'r hyn a ddaeth:

Dy hoffter oedd arferion — y frodir,
Hyfrydwch dy galon;
Cenaist ei cheinciau ceinion
A charu'n wych werin hon.



Emrys Cleaver yn cyflwyno rhaglen deledu'r BBC "Gwŷr y Gân" yn Ionawr 1962

Emrys Cleaver compering the BBC television programme "Gwŷr y Gân" ("Men of Music") in January 1962

Llun: trwy garedigrwydd y BBC/Photo: by courtesy of the BBC

EMRYS CLEAVER: A TRIBUTE

Alun Davies

Emrys Cleaver became the Minister of Capel y Waun, in the Presbyterian Church of Wales, Bodffari, in the Vale of Clwyd, in 1936. Shortly afterwards he joined “Hogia'r Gogledd”, a group of singers specialising in performing music of a lighthearted nature. One listener to their popular broadcasts was the formidable Lady (Herbert) Lewis who lived in nearby Caerwys. At that time she was President of the Welsh Folk-Song Society and the third person to hold that prestigious office since the founding of the Society in 1908. Whilst fulfilling a preaching engagement in Caerwys, Emrys Cleaver was advised by Lady Lewis “to stop wasting his talents on the group’s foolishness and to start taking a constructive interest in the splendid folkmusic of his native country.”

Emrys heeded her counsel and thus began his long, distinguished and industrious association with the Society. Little did either party realise then that in 1976 he would be appointed the eleventh President of the Welsh Folk-Song Society, a post which he held until his death in Cardiff on Sunday, 17th March 1985, in his eighty first year. Previously he had been the Society’s Treasurer (1947-56) and Secretary (1957-75) and for many years he was also Secretary, Chairman and subsequently President of the Welsh Folk Dance Society, which he had helped to establish in 1949. Both organisations derived much benefit from his able administration.

Emrys Cleaver’s twin interests in folksong and folkdance made him a prominent and respected figure in contemporary Welsh culture. He was instrumental in establishing the joint annual Folk Festival and the Welsh Folk-Song Society’s still successful series of weekend courses held in September each year. As D. Roy Saer, the editor of *Canu Gwerin* (as the Society’s journal is now known), says in the 1983 issue: “Thanks especially to the foresight of Mr Cleaver, a vital development came about in 1963 with the establishment of the Society’s Weekend Course, offering a programme of lectures and singing sessions. This was to motivate some fresh research and result in papers which could later be utilized in the Journal . . .” Put another way, Emrys Cleaver’s deepfelt appreciation of the inheritance of the past and practical use of the present enabled him to construct a viable framework for the future role of the Society.

From time to time the fruit of Emrys Cleaver’s labours as a folksong collector appeared in the Society’s journal and, until he succumbed to the serious illness which dogged the final decade of his life, he was in demand as an adjudicator, compère and lecturer in this specific and important

branch of music. As a singer he caressed the products of the untutored Welsh peasantry, to the delight of audiences throughout Wales.

William Emrys Cleaver was born on the 11th October, 1904, the only son of a musical farmer, William Cleaver, and his wife Ann, of Maes-y-bont, a village some three miles to the north of Pen-y-groes in the former Carmarthenshire. He was ever mindful of the rich inheritance of his native county. From the local school he progressed to Llandeilo Grammar School and the then University College of South Wales and Monmouthshire, Cardiff, where he graduated as a Bachelor of Arts in Welsh. After a period of study in the theological colleges of Aberystwyth and Bala he was ordained in 1936, when the *Sasiwn* was held in Moss Side, Manchester.

In the same year, the thirty-two year old preacher-cum-musician married Esther Glenys Rees of Dryslwyn, near Llandeilo, and they settled in Bodffari. As well as preaching every Sunday in Bodffari or the neighbouring chapels he taught music in the grammar schools of Denbigh and St Asaph. He resigned his ministerial duties in 1945 but continued to preach the gospel for many years.

But Emrys Cleaver's talents were not confined to folkmusic, the classroom and the pulpit. His considerable acting ability had been nurtured whilst a student and the theatre company he founded in Bodffari quickly became renowned throughout Wales. From 1948 onwards, Cardiff was his home and he continued to give several notable performances on stage and radio.

For many years he was a popular broadcaster, presenting (or co-presenting) a number of feature programmes which reflected his many interests. With his unassuming and pleasant conversational style, akin to his method of preaching, he succeeded in both informing and entertaining his audiences.

Amongst the well-known and well-received sound and television programmes were "*Cenwch im yr Hen Ganiadau*", "*Aelwyd y Gân*" and "*Gwŷr y Gân*". The latter was subsequently encapsulated in book form in which his brief anecdotal accounts of eighteen Welsh composers and ten singers ranged from Joseph Parry to W. Albert Williams and from Llew Llwyfo to Leila Megane. (The later but inadequately translated English version, *Musicians of Wales*, included biographical sketches of nine other important Welsh composers who had been inexplicably omitted from the parent volume.)

Sharing the same publication date as *Gwŷr y Gân* (1964) was the biographical study entitled *D. Vaughan Thomas*. This had been awarded first prize at the Royal National Eisteddfod of Wales, Llanelli, 1962. Mr Cleaver gave a detailed account of the life of the composer, including the regrettable way in which he had been rejected by the Welsh establishment of his day. The appendix listing his works and their dates of

composition or publication is very useful. Chapters are devoted to this erudite man's abilities as scholar, poet and educationalist as well as to several worthwhile comments on some of his compositions.

With the benefit of hindsight, we can dismiss Mr Cleaver's final placing of Vaughan Thomas alongside Tchaikovsky, Grieg, Holst and Vaughan Williams but, in view of the way the Ystalyfera-born composer has been idolised, even "canonised", by successive generations of Welsh people who can only have heard a mere handful of his works, we can but salute Emrys Cleaver's honest and practical assessment of those compositions in which Vaughan Thomas's technique was deficient or where inspiration did not keep step with inclination.

Over a decade later, Mr Cleaver was responsible for the Welsh section in Peter Kennedy's *Folksongs of Britain and Ireland*, published in 1975.

It is sad to relate that Emrys Cleaver's conspicuous contributions to culture and entertainment remained unrecognised by both university and state. However, suitable amends were made in 1967 when he was elevated to the highest Order of Bards, at the Bala National Eisteddfod.

A happy man, and the cause of happiness in others, Emrys Cleaver enjoyed the gift of being efficiently at home in the pulpit and on the stage, behind a microphone and in front of the camera. His innate sincerity and sensitivity successfully dispelled any instance of incongruity.

Heddwch i'w lwch.

DEUAIR FYRION AC ALAWON*
(*The Deuair Fyrion Metre and Its Tunes*)

Meredydd Evans

Lluniwyd y pennawd hwn ar ffurf hen fydr barddonol, sef Cywydd Deuair Fyrion; ond nid oedd fawr gamp ar hynny. Fel un o fesurau'r Glêr yr adwaenid ef ar hyd y canrifoedd. "Deuair Fyrion", sylwer, ac ystyr "gair" yma yw "llinell". Felly, hefyd, byr yw'r llinellau: pedair sillaf yr un fel rheol, gyda dau guriad, ac yn odli. Sôn yr ydym, felly, am gwpled odledig yn cynnwys pedwar curiad. Y nifer hyn o guriadau sy'n allweddol a dyna pam y medrir cyfrif cwpled o linellau pum sillaf yr un yn enghraifft o Gywydd Deuair Fyrion. Yr un yw'r mesur yn y ddau gwpled canlynol:

(a) Nyd jawn kanmol ond y dwyfol;

(b) Dryw bach ydyw'r gŵr, amdano mae stŵr.

O safbwynt cerddorol, fodd bynnag, gall lleoliad y curiadau ofyn am alawon gwahanol ar gyfer y ddau gwpled. Cawn enghreifftiau o hyn yn ddiweddarach.

Yn y cyfamser, awn yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Mynnai Gruffydd Robert yn y *Gramadeg Cymraeg* nad oedd:

gan burorion telyn, na chuaith gann yr rhann fuyaf o'r gŵyr ŵrth gerđ,
mo'r ceinciau musigaŵl, cymmesur i ganu y cyfryŵ fessurau gida huynt.
Ag abl yŵ ychydig fessurau, ȷe bo prinn ceinciau, ond petfai'r cerđorion
ynghymru, mor gouŵaint ag ydyŵ musigyđion gŵledyd eril, i yspressu ai
hermig bynciau cyflais, a gŵedaid i bob messur ar gerd dafod a glouent,
chŵi a ŵelech y prydyđion yn tanu amlryŵ fessurau.

Ymhlith y "cyfryŵ fessurau" hyn cynnwys ef y Cywydd Deuair Fyrion, ond go brin y medrir derbyn ei haeriad. Un sylw amlwg i'w wneud yw nad oes angen unrhyw gywreinrwydd arbennig ar gyfer llunio cainc i fesur mor hynod o syml â hwn. Heblaw hynny, y mae Gruffydd Robert ei hun wedi cyfeirio'n gynharach yn ei lyfr at arfer y "bobl annhechnennig" yn canu "rimynnau gŵylfeud" ac ymysg y rheini yr oedd digonedd o gerddi, gellir yn ddiogel tybio, wedi eu llunio ar fesur Cywydd Deuair Fyrion. Ymhellach, canwyd llu o gerddi ar yr un mesur yn ymwneud â themâu gwahanol i'r themâu gwylol. Rhesymol yw casglu, felly, i amryw o geinciau gael eu llunio a'u cyfaddasu i ganu cerddi o'r fath.

Sylwn yn fyr yrŵan ar yr amrywiaeth themâu hyn, gan gyfyngu ein sylw i rai o'r prif gasgliadau argraffedig. Cenir mawl i uchelwyr a gŵyr eglwysig

* Cyhoeddir yma sgript darlith a draddodwyd yn Amgueddfa Werin Cymru ar 11 Ebrill 1985, yn rhan o Ysgol Basg ar thema "Bywyd Traddodiadol Morgannwg". Cyflwynwyd yr enghreifftiau cerddorol trwy gyfrwng datganiadau neu recordiadau.

o bwys; marwnedir rhai o uchel radd yn y gymdeithas; pyncir ar faterion crefyddol, moesol a chymdeithasol; ceir carolau Nadolig, Gŵyl Fair a gwirod; ac yn bendifaddau ceir nifer sylweddol o gerddi serch, rhai ohonynt yn anghyffredin o swynol. Mewn gair, digon tebyg o ran themâu yw cynhyrchion y cywyddwyr Deuair Fyrion a'r cywyddwyr Deuair Hirion a llunwyr yr awdlau, ond eu bod yn nes na'r penceirddiaid at fywyd pobl gyffredin. Yn gyffredinol, roedd eu mesur dinod nhw islaw sylw aristocratiaid cerdd dafod, er i rai ohonynt hwythau, Dafydd ab Edmwnd a Ieuan Deulwyn er enghraifft, ymarfer ychydig arno; trwy ei gynganeddu a'i ganu wyneb wrthwyneb, gyda llaw, gan greu tipyn o orchest yr un pryd.

Gan mai ymwneud yr ydym yma yn bennaf â gweddau ar fywyd traddodiadol Morgannwg, y mae un casgliad argraffedig sy'n werth edrych yn fanylach arno o berthynas i'r Cywydd Deuair Fyrion, sef *Hen Gwndidau, Carolau a Chywyddau* "Hopcyn" a "Cadrawd" (Jarvis & Foster, Bangor, 1910). Arwydd o boblogrwydd y mesur dan sylw yw bod yn agos i 28% o gerddi'r gyfrol hon, sy'n cynnwys 111 o gerddi i gyd, wedi eu canu arno, ac o'r 31 perthnasol y mae 23 ohonynt ar bynciau crefyddol a moesol, 3 yn gerddi mawl, 4 yn gerddi marwnad a'r un sy'n weddill yn troi o gylch hen arfer cymdeithasol, sef cymhortha. Ond pwysicach fyth, o safbwynt pwnc penodol y ddarlith hon, yw bod y gyfrol yn cynnwys atgynhyrchiad — aneglur braid — o un gainc ar gyfer canu'r mesur (gweler t.222). Byddaf yn ymdrin â'r gainc hon yn nes ymlaen ond yn y cyfamser carwn ddyfynnu yr hyn a ddywedir amdani gan y gŵr a'i nododd, Iolo Morganwg:

Y mae ym Morganwg lawer o hen ysgriflyfrau cerddi Teuluaid fal au gelwir yno. Y maent yn unodl, ddiaithr ambell un iawn drwy'r gan ac yn llwyr ddigynghanedd. Y mesurau cyffredinaf yw'r hen gywydd deuair ar ba fesur y mae'n gennyf gof glywed hen flaeneuwraig yn canu'r mesur hwn ar erddigan agos hyd a'th fy ngof fal hon . . . Yr wyf wedi clywed ceingiau bychain eraill ar ba rhai y cenid y mesur bach hynn.

Bellach, trwy ymdrechion Phyllis Kinney, wrth iddi chwilio yn rhai o lawysgrifau Iolo, daeth nifer o'r "ceingiau bychain" hyn i'r fei a thybiais y byddai o ddiddordeb inni dreulio peth amser yn eu hystyried. Mae tair neu bedair yn rhagor hefyd y cefais afael arnynt o ffynonellau eraill a rhaid imi eich rhybuddio ymlaen llaw y bydd eu hystyried nhw yn mynd â ni dros ffiniau Morgannwg. Ond cyn dod at y ceinciau yn benodol carwn ddangos yn frysiog pam na ddaeth ond dyrnaid bychan ohonynt i lawr i'n cyfnod ni.

Er i'r Cywydd Deuair Fyrion fod yn fesur hynod o boblogaidd ymhlith ein hynafiaid dros ganrifoedd lawer, y mae fel pe'n diflannu yn ystod hanner olaf y ddeunawfed ganrif, ac mewn llawysgrifau, yn hytrach na llyfrau argraffedig (gydag eithrio dwy gerdd yn *Blodeugerdd Cymry*,

1759), y ceir ef erbyn hynny. Ffaith hynod, ond ddiymwad, yw mai yn eglwysi deau Ceredigion y cyfansoddwyd ac y canwyd yr halsingod yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif ac mai ar fesur Deuair Fyrion y mae'r mwyafrif ohonynt: mae cryn ddeucant yn y llawysgrifau. O hanner olaf y ddeunawfed ganrif ymlaen, felly, yr unig ddefnydd gweddol helaeth a wnaed o'r mesur oedd gan Iolo Morganwg ei hun, hynny mewn cerddi a dadogwyd ganddo ar Rys Goch ap Rhiccert, rhagredegydd Dafydd ap Gwilym (ac o'r ddeuddegfed ganrif!) yn ôl y dewin o Drefflemin. Dengys y cerddi hynny, gyda llaw, fardd mor hynod o fedrus oedd Iolo: mae swyn neilltuol ynddynt. Ond y pwynt i afael ynddo yrŵan yw nad yw'n rhyfedd o gwbl i'r ceinciau a gysylltwyd â'r Cywydd Deuair Fyrion beidio â goroesi hyd at ein canrif ni, ar wahân i ddyrnaid bach ohonynt. Aeth yn agos i ddwy ganrif a hanner heibio er pan gefnodd prydyddion ar y mesur.¹

Trown, bellach, at y ceinciau eu hunain, gan ddechrau gyda'r nifer a nodwyd gan Iolo ei hun o dro i dro. Gyda hyn o sylw rhagarweiniol: nid oedd yn gofnodwr cerddorol o'r radd flaenaf! Nid yw'n nodi amseriad cainc na'i chyweirnod; anaml iawn y ceir barrau, a phan geir rhai ni allwn fod yn hollol siwr o'u harwyddocâd; nid oes sôn am na siarp na fflat. Pan fyddaf, felly, yn canu'r ceinciau, mae'n anorod fy mod yn gorfod dehongli tipyn arnynt. Un gair arall. Nid oes achos o gwbl dros feddwl ei fod wedi *ffugio* r ceinciau hyn; gall fod wedi eu nodi yn anghywir, ond dyna'r cyfan. Nid yw'r cymhelliad arferol o ogoneddu Morgannwg yn berthnasol o ystyried ceinciau bach syml fel y rhain. Ac un gair eto! Ar wahân i un cwpled, nid yw Iolo'n cynnwys geiriau Deuair Fyrion gyda'r ceinciau. Bùm yn ddigon hyf, felly, i ddewis geiriau fy hunain, o'r gyfrol *Hen Gwndidau*, gydag eithrio dwy gerdd, fel y cewch glywed.

1. Cywydd Deuair Morganwg. (LLGC: Llsgrau Iolo A. Williams; heb eu catalogio)



ar ei gwar-tha mi ddech-reu-a ar ei gwar-tha mi ddech-reu-a



lle mae ny-thod llau a lly-god lle mae ny-thod llau a lly-god

1. Mae'n ddiddorol sylwi bod eithriad i hyn yn ein canrif ni. Yn sylfaenol, y mesur "gwerinaidd" hwn yw mesur pryddest fuddugol John Eilian, "Meirionnydd".



Dyma'r unig gainc y mae geiriau yn gysylltiedig â hi. Sylwer iddi gynnwys dau gwpled, gyda'r cwpled cyntaf yn cael ei ganu ddwywaith a'r ail gwpled deirgwaith drosodd. Ar yr un patrwm gwrandawer ar gychwyn un o gerddi Thomas ap Ieuan ap Rhys: "Molawd Syr George Herbart o Abertawe, yn ei annog i rhyfel ar Ffrancod dan Harri'r Wythfed" (*Hen Gwndidau*, tt. 6-7):

Mae un marchog, aür gadwynog
yn rhagori ar arglwyddi

syr siorys sydd, harbert ddedwydd
ywchlaw digon o varchogion

och gwaed y kaid, jairll a dukiaid
ag o wraiddon, tywysogion

ddoedd ddüw n karu, kenedl kymry
pan ych kavad, yn lle' chendad.

2. Deuair Fyrion. (LIGC: Llsgrau Iolo A. Williams; heb eu catalogio)



Gellir canu chwe chwpled i'r gainc hon, ond sylwi bod ail ran y gainc yn cael ei hailganu. Wele gwpledi wedi eu dethol o "Can Cymhortha" (*Hen Gwndidau*, tt. 25-7):

Pob rhyw gristion glan i galon
 gwrandewch er mwyn duw vi n achwyn
 gwaie pob henddyn myfi wŷr hyn
 berchen gwraig kryf jeuanc heinyf
 gwaie r anhawgwr gwraigog llwvwr
 ar gair iddo er nas haeddo

gwaie r gwr a vo a gwraig iddo
 a honno'n wir arno en veistir
 os disgyn bod dim anghydfod
 rhyddyn hi a ar llawn ywcha
 y mae kltwyn o wyndon gwyn
 wrth ddrws y tŷ wi ni rhenty.

Rhaid cywasgu geiriau weithiau, dro arall lunio llithren ar ambell air, neu ddyblu nodyn, er mwyn priodi gair a chainc ynghyd. Mae hyn yn gyffredinol wir.

3. Ton Deuair. (LIGC: Llsgrau Iolo A. Williams, 145: 12)



Gellir canu pedwar cwpled ar gyfer un hyd o'r gainc hon. Dyma ddetholiad o gerdd "I Blas Margam" (*Hen Gwndidau*, tt. 27-8):

Duw nad ti gam, byth ar vargam
 plas dan rhodiad haul a lleuad
 vel dyma'r lle i bu nechre
 ac yma bo niwedd etto

mae arnai chwant kanv moliant
 lle lluno j medd ar vy niwedd
 lle sainwyd plas gwych o urddas
 mam jesu wyn wŷr Siohasyn

kraig o wydyr, kor krevyddwyr
 kroestai krist jaith, paradwyswaith
 kor i veibon krist ai waison
 kaer gywrain vydd, korfrig koedydd.

4. C^{dd} deuair fyrron. (LiGC 13089: 253)



Dyfynnaf eiriau yn awr o gerdd gan “Risiart dafydd kiper newydd” yn dwyn y pennawd “Karol Nydolig” (*Hen Gwndidau*, tt. 153-4). Gan sylwi'r tro hwn nad oes raid ailganu rhan olaf y gainc, gellir canu chwe chwpled i'r gainc gyfan.

Duw gorychaf y kyfarchaf
 pylgam diddig duw nydolig
 agor yn glau fy wefyssau
 am genen hy yth foliany
 o duw brissia ynebrwydd atta
 ymkadw fi rog drygioni

A madden glir ymi o bryssyr
 vymherchode mawr am bie
 or gorychaf duw deisyfaw
 arnat drwy heddy drigaredd
 a rho mi ras fal y kafas
 y dewissol santaidd bobol.

Ar waelod y garol nodir y flwyddyn AD1621.

5. (Heb bennawd) (LIGC: 13131 B)



Nid oes bennawd yn gysylltiedig â'r gainc hon ond dyma'r un, y cyfeiriais ati eisoes, a atgynhychwyd mewn ffurf aneglur yn *Hen Gwndidau*. Mae'n ddigon eglur yn y llawysgrif bresennol. Detholwyd y geiriau o "Marwnad Sion Thomas o Blwyf Lidnerth" (*Hen Gwndidau*, t. 52). Gellir canu pedwar cwpled cywydd i'r gainc.

Sion gerdd brydferth, o blwyf lidnerth
athro credig, doeth dysgedig . . .
y blwyf vydde, gynt bob gwile
yn kael newydd, gerdd lawenydd

paso ddoedd sion, holl brydyddion
yn gwlad tra vü, ai rhag vlaeny
heddiw mradwys, düw lle kyrchwys
maen kanu mlaen, yr holl gwmpaen

vo wnae n ddiveth, gerdd o bregeth
yn sampol yn, ni bob blwyddyn
ag y leni, ve dyg keli
mab brenin nef, atoe adref.

6: Rhuppynt Hir. (LIGC: 13099: 135)



Dyma'r geiriau a gynhwysir gyda'r gainc yn y llawysgrif; noder, wrth gwrs, *nad* ar fesur Cywydd Deuair Fyrion y maent:

mi a baraf i'm gwen araf
gan a garaf gair o gerydd
am lyfasu fy niflasu
a'm lliasu em lliosydd

dere'r deryn du pigfelyn
sy'n y dyffryn yn ei deffro,
dwg fy neges at fachgenes,
am wawr gynes rwy'n mawr gwyno.

Fel y nodir ym mhennawd Iolo, mesur *Rhupunt* Hir yw hwn. Pam, felly, cynnwys y gainc yn hyn o drafodaeth? Oherwydd y *gellir* canu Deuair Fyrion arni a'i bod yn ddigon annhebyg, 'dybiwn i, i Iolo glywed y geiriau uchod yn cael eu canu arni. Awgrymaf iddo ef sylweddoli y gellid gosod Rhupunt ar y gainc. Y gwir yw bod y pennill cyntaf i'w gael yn aml fel pennill enghreifftiol o fesur Rhupunt Hir yn rhai o Ramadegau'r Penceirddiaid: er enghraifft, mae ffurf arno i'w weld yn *Pum Llyfr Kerddwriaeth* Simwnt Fychan. Sylwer, hefyd, fod yr ail bennill yn llawer diweddarach o ran geirfa. Efallai, yn wir, mai Iolo a'i ychwanegodd, a diamau hefyd bod rhywun neu'i gilydd wedi addurno ychydig ar ran gyntaf y gainc. O symleiddio ychydig arni fe welir yn ddigon eglur ei bod yn ymdebygu, o ran ei phrif nodweddion, i'r ceinciau sy'n ei rhagflaenu; i bedair ohonynt, yn bendant:



Nodweddion y Ceinciau

O'r chwe chainc y sylwyd arnynt yn barod, mae pump ohonynt, sef rhifau 1, 2, 3, 4, a 6, yn debyg i'w gilydd yn gyffredinol. Gellir eu hystyried, bob un, fel wedi eu hadeiladu o fotifau byr, gweddol annibynnol ar ei gilydd:

motifau pedwar nodyn yn y bar, a'r pedwar nodyn, fel rheol, yn cyfateb i bedair sill y llinellau a geir mewn cwpled Cywydd Deuair Fyrion. Nid ydynt yn geinciau melodaidd yn yr ystyr bod y brawddegau yn llofn esmwyth i'w gilydd; hytrach yn herciog yw'r symudiad. Nid delwedd o afon lefn a ddaw i'r meddwl wrth eu canu ond delwedd o fur wedi ei godi o flociau cyfan. Ac o ystyried y dull yr "adeiledir" hwynt daw dwy nodwedd amlwg i'r fei, sef ailadrodd a gwrthosod motifau.

Ailadrodd. Gan amlaf nid yw'r motifau a ailadroddir yn dilyn yn union ar ei gilydd; gedewir i far neu ddau, neu ragor, fynd heibio cyn yr ailadrodd. Ond mae'r elfen ailadroddus hon yn dra amlwg. Wele'r patrwm cyffredinol:

- Cainc 1: 10 bar; 6 yn cynnwys motifau cyffelyb.
- Cainc 2: 8 bar; 4 yn cynnwys motifau cyffelyb.
- Cainc 3: 8 bar; 4 yn cynnwys motifau cyffelyb.
- Cainc 4: 12 bar; 6 yn cynnwys motifau cyffelyb.
- Cainc 6: 8 bar; 3 yn cynnwys motifau cyffelyb.

Gwrthosod. Mae o leiaf dri dull ar osod motifau gyferbyn â'i gilydd i'w cael yn y geinciau hyn. Fe'u hamlygir i gyd yn Cainc 4; felly, ystyriwn honno fel patrwm:

- (a) Motifau'n cydbwysu. Gweler barrau 7 ac 8.
- (b) Motif yn dynwared ffurf motif blaenorol; ond yn uwch neu'n is ar y raddfa. Gweler barrau 2 a 3; hefyd, barrau 9 a 10. Nid yw trefn y cyfyngau rhwng y nodau yn unffurf yn y ddau fotif eithr y mae ffurf y motifau yr un: mae megis bwa.
- (c) Motifau yn gwrthbwysu ei gilydd trwy newid traw y llais. Gweler barrau 9 a 10. Mae amrywiadau ar y dulliau gwrthosod hyn i'w cael ymhob un o'r pum cainc i ryw raddau.

Gellir ystyried pedair o'r ceinciau, sef rhifau 1, 2, 3 a 4, fel ceinciau ag iddynt ddwy ran, A a B. Ond nid yw egwyddor y gwahaniaethu rhwng A a B yr un ymhob achos. Yn gyffredinol ceir dwy egwyddor ar waith: amrywiaeth rhythm ac amrywiaeth traw. (Cyffyrddwyd â hyn eisoes yn (c) uchod.)

- Cainc 1: Amrywiad rhythmig *bychan* a geir yma rhwng A a B, yn troi ar ganu tri hanner nodyn mewn tri bar gwahanol. Ond yr amrywio amlycaf yw'r newid traw ar ddechrau rhan B. Hyn sydd amlycaf hefyd yng Nghainc 4.
- Cainc 2: Gwahaniaeth rhythmig sy'n sylfaenol yma. Mae A yn fwy herciog na B.
- Cainc 3: Nid ar bwys gwahaniaeth rhythm na thraw y rhennir y gainc hon. Gellir priodoli'r ymraniad i ddau beth: (i) ceir ailadrodd motifau yn A ond nid yn B, a (ii) rhaid wrth

lithrenni ar gychwyn pob un o'r pedwar bar sydd yn A, tra nad oes lithren ar gyfer rhan B o gwbl.

Sylwasom hyd yma ar nodweddion cyffredinol pump o'r chwe chainc a nodwyd gan Iolo. Ystyriwn yrŵan gainc rhif 5. Mae un gwahaniaeth pur amlwg rhwng hon a'r pump arall, a hwnnw i'w glywed yn y ffordd y mae'r llais yn symud o nodyn i nodyn. Symudiad diatonig a geir amlycaf yma; hynny yw, symud o ris i ris a wnawn, yn hytrach na symud naid wrth naid. Tueddwn, felly, i synio am y brawddeg cerddorol yn ymestyn dros ddau far ar y tro. Gyda'r ceinciau eraill y duedd yw symud fesul un bar ar y tro. Mae llif melodi, o ganlyniad, yn amlycach yma. Serch hynny, ychydig wahaniaeth gradd sydd rhyngddi a'r gweddill ac y mae ailadrodd a gwrthosod i'w clywed yn ddigon pendant ynddi. Gall arddel ei pherthynas yn agored â'r teulu.

Ffynonellau Eraill

Dyna ddarod â Iolo, am y tro beth bynnag, fel ffynhonnell ceinciau Cywydd Deuair Fyrion. Trown, ymhellach, at ffynonellau eraill.

Y tro cyntaf i mi sylweddoli bod ceinciau ar gael o fewn corff ein cerddoriaeth werin ar gyfer canu Cywydd Deuair Fyrion oedd pan welais ddau ddernyn bach yn dwyn y teitl "Halsing y Dryw" yn ail gyfrol *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. Ac nid ar unwaith y sylweddolais i hynny chwaith, gan nad oedd geiriau wedi eu cynnwys gyda'r ceinciau. Ond mewn cromfachau, gyda'r pennawd, roedd y geiriau "Ton Deuair" a hefyd nodyn yn gysylltiedig â'r ceinciau hyn yn eu perthnasu â hen arfer Hela'r Dryw; nodyn gan "Ifor Ceri", y gŵr a'u casglodd tua diwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Wedi gweld y cysylltiad â Hela'r Dryw, mater syml oedd dod o hyd i eiriau ar gyfer y ceinciau. Mae rhai felly ar gael yng nghyrol Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (tt.66-8). Dyma, felly, "Halsing y Dryw" I:



Dyma'r dryw, os yw e'n fyw,
Neu dderyn to, i gael ei rostio.

Gwynt ffralwm ddelo'n hwthwm,
I droi'r tŷ a'i wyneb fyny.

Perthyn rhai nodweddion arbennig i'r gainc fach seml hon, a chystal inni edrych ar y rheini i ddechrau. Dichon mai'r peth amlycaf ynglŷn â hi yw ei bod yn gainc gylch; mae'r nodyn olaf ynddi yn nodyn amlwg arweiniol.

Mae'n gainc ddiddiwedd, fel 'tae! Y mae hefyd, yn debyg i gainc rhif 5 Iolo, yn symud o ris i ris, yn ddiatonig; a hynny, yn ddiddorol iawn, tuag i lawr ar y raddfa, hyd nes cyrraedd at y tri nodyn olaf, lle mae'n cychwyn dringo drachefn. A chaniatáu hyn oll, fodd bynnag, perthyn yn ddiamheuol i'r ceinciau Ioloaidd, gyda rhai o'r dulliau gwrthosod yn amlwg ynddi, a pheth ailadrodd hefyd. Gyda "diwygio" ychydig arni fe wnâi'n rhagorol i ganu'r ddau gwpld cywydd a neilltuwyd gan Iolo ar gyfer Cainc I.

"Halsing y Dryw" II, wedyn:



1. Dryw bach ydyw'r gŵr, amdano mae stŵr,
Mae cwest arno fe, nos heno 'mhob lle.
2. Fe ddaliwyd y gwalch, oedd neithiwr yn falch:
Mewn stafell wen deg, a'i dri brawd ar ddeg.
3. Fe dorwyd i'r tŵr a daliwyd y gŵr:
Fe'i rhoddwyd dan len ar elor fraith wen.
4. Rhubanau bob lliw sy o gwmpas y Dryw,
Rhubanau dri thro sy arno'n lle to.
5. Mae'r Drywod yn sgant, hedasant i bant
Ond deuant yn ôl trwy lwybrau'r hen ddôl.
6. O, meistres fach fwyn, gwrandewch ar ein cŵyn:
Plant ieuainc ym ni; gollyngwch ni i'r ty.

Dyma'r gainc gyntaf, hyd yma, ar gyfer canu Cywydd Deuair Fyrion pum sillaf. A sylwer yn neilltuol yma bod llinellau'r cwpleidi yn diweddu'n ddieithriad ar acen drom. Ni ellid canu llinellau'n diweddu'n ddiacen ar y gainc hon heb lofruddio'r iaith yn llwyr; ni ddeuai llithrennu â ni dros broblem yr acen drom derfynol sydd yn y gerddoriaeth. Ar wahân i hynny perthyn iddi rai o'r nodweddion cyfarwydd a nodwyd yn barod wrth drin y ceinciau eraill. Gwir bod peth symud diatonig yma, ond yr argraff glywadwy fwyaf pendant yw'r dilyniant o fotifau; ac y mae ailadrodd yn ddigon amlwg ynddi.

Dylid ychwanegu yma bod tair fersiwn arall o'r gainc fach hon ar gael; y dair wedi eu cofnodi yng ngogledd sir Benfro, a dwy ohonynt, gyda llaw, yn sylfaenol bentatonig. Eithr nid af i fanylu arnynt ar hyn o bryd, un wrth

un. Serch hynny, mae'n werth aros ychydig gydag un ohonynt gan ei bod yn gerdd wasael ddigamsyniol ac yn ein harwain felly at gysylltiad ychwanegol rhwng y Cywydd Deuair Fyrion a chanu'r Gwyliau: yn yr achos presennol, canu calennig ar ddechrau blwyddyn. Ymddengys y gân ymhlith papurau J. Lloyd Williams (LIGC 109: 609) a thebyg iddi gael ei chofnodi o ganu'r Parchedig William Rees, ficer Llangadog ar un amser, a'i dysgodd yn ardal Tyddewi tua chanol y ganrif ddiwethaf.



Deff - rowch ben teu - lu Mae'r flwy-ddyn ne - wy



We - di dod ad - re O fewn eich dry - se



Mae'n ddydd mae'n ddydd Fe gân yr e - he - dydd



Mae'n ddydd go - le Fe gân y ceil - io - ge

Deffrowch ben teulu
Wedi dod adre

Mae'r flwyddyn newy
O fewn eich dryse

O fewn eich dryse
Os cawn ni gennad

Mae'n bwriad ninne
drwy barch a chariad

Cariad yn amgen
A'r y cwrw gore

Rhoddwch yn llawen
Wrth y fowl fwya!

Mwya peth eto
Chael ein gosod

'Rym yn cheisio
o flaen pasteiod

Pasteiod torrwh
.....

Cwrw na spariwch
.....

Chwi gewch gennyn
Ddaeth o'r gerddi

O ddail bau gleision
Boreu heddy'

Chwi gewch gennyn
Ddaeth o'r berllan

o falau cochion
Boreu Gwyl Iwan

Chwi gewch gennyn
Ddaeth o'r Aber

gerrig gwynion
Wedi swper

Mae'n ddydd mae'n ddydd
mae'n ddydd gole

Fe gan yr ehedydd
Fe gan y ceilioge.

Rhaid cymharu hon â "Halsing y Dryw" II. Yn ei hanfod, y gainc honno, wedi newid yr amseriad arni o dri i ddau, a geir yma; hynny'n ei gwneud yn bosibl i ganu, gyda chymorth llithrenni, gwpledi pum sillaf sy'n terfynu'n ddiacen. Sylwer hefyd ar y cyrch-gymeriad a geir yn hanner cyntaf y gerdd. Ond y newid amseriad yw'r peth mwyaf diddorol, a charwn bwysleisio eto mai'r rheswm dros hynny yw bod newid ym mhatrwm acennog y llinellau. Gallwn ddangos y peth fel hyn:

 u / u u / u / u u /
Dryw bach ydyw'r gŵr, / Amdano mae stŵr . . .

 / u u / u / u u / u
Cariad yn amgen Rhoddwch yn llawen . . .

Ni ellid canu'r ail gwpled hwn ar "Halsing y Dryw" II heb lurgunio'r iaith yn wrthun. Yr un pryd mae'n werth sylwi y gellid, gyda thipyn o lithrennu ac ati, ganu geiriau "Halsing y Dryw" II ar y gainc bresennol.

Dof yrŵan at ddull arall o ganu'r geiriau gwasael hyn sydd beth yn wahanol i'r dull a amlygwyd eisoes, er nad yn sylfaenol felly. Cyhoeddwyd dwy fersiwn arall o "Deffrowch ben teulu" yn *Caneuon Llafar Gwlad* (gol. D. Roy Saer, 1974). Dyma hwynt fel y'u recordiwyd:

Deff-rwch! ben-teu-lu, Tym-a bor-e'r Flwydd-yn New-y' Wed-i dod ad-re

O fewn y drws-e. Drws-e yng nghloi-on, Wed-i eu par-o

Drost y nos: O mis-tres fach fwyn, Gwran-dewch ar ein cwyn; Plant

if - enc yn ni, Gyll - yng-wch ni i'r tŷ; Gyll - yng- wch ni'n glou Yn-te
 tym- a ni'n ffoi. Rhowch gal -en-nig yn gal- on-nog i blant bach sy heb un
 cein-og; Cein- og neu ddim-e, P'un a fyn-noch chwith-e: Cein-og sy or - e.

Deff- rwch! ben- teu-lu, Dym-a'r Flwydd-yn New-y' Wed-i dod ad-re
 O fewn y drws-e. Meis-tres fach fwyn, Gwran- dewch ar ein cwyn; Ag-
 or - wch yn glou Yn-te tym - a ni'n ffoi. Di - od! di - od!
 lond siwg gein-og: Yf - ed hon-no (hy)d at y gweil-od. Di-od!
 di - od! lond siwg ddim-e: Sarn-u hon-no am ein sod - le!

Mae nifer o nodweddion diddorol y gellid sylwi arnynt yma ond rhaid bodloni ar ychydig sylwadau byr.

(i) O'r safbwynt cerddorol y peth amlycaf yw'r ailadrodd diddiwedd. Sylwer, serch hynny, bod peth amrywio ar yr ailadrodd. Yn y ddwy gân fel ei gilydd, y motif sylfaenol yw'r naid o'r llywydd i'r tonydd, eithr addurnir peth ar hyn; hynny fel pe'n adlewyrchu awydd naturiol mewn cantorion i osgoi gormod o undonedd. Gyda chanu pob motif cawn yr un ffurf gyffredinol, sef y llais yn gostwng ar y nodyn olaf yn ddieithriad, gyda maint y cyfwng yn amrywio. Canu pur anfelodaidd yw canu fel hyn, wrth gwrs, ac y mae'r ymwybod â symud bob yn floc o seiniau yn gryf iawn yma. Ar lawer cyfrif dyma'r ffurf symlaf bosibl ar y math ar geinciau y buom yn eu trafod yn y ddarlith hon. Gellid awgrymu'n betrus ei bod yn ffurf bur gyntefig ar gaine.

(ii) O berthynas i'r geiriau rhaid cydnabod nad yw pob cwpled yn

gwpled Cywydd Deuair Fyrion, ond y mae'r patrwm o ddau brif guriad ymhob llinell yn hollol sylfaenol ac adlewyrchir hynny yn yr amseriad cerddorol.

§

Wrth baratoi hyn o ddarlith daeth i'm bryd drafod rhai materion eraill cysylltiedig â mesur Cywydd Deuair Fyrion, ond bernais y byddai'n well ymatal, rhag mynd yn rhy faith. Wrth gloi, fodd bynnag, cystal imi nodi dau o'r materion hyn.

(i) Mae'n *bosibl* bod rhai ceinciau a ddefnyddiwyd i ganu mesurau gwahanol i fesur Cywydd Deuair Fyrion yn cael eu defnyddio i ganu'r mesur hwnnw yn ogystal. Dichon bod y gainc a elwir "Sidanen" yn un o'r rheini. Mewn cerdd a sgrifennwyd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg fe gawn y cwpled hwn:

kanv yn llafar gowydd pedwar
a fob aken a si danen.

Gellir deall hyn, 'dybiwn i, fel cyfeiriad at ganu cywydd pedwar ar y gainc "Sidanen"; a nodir y gainc hon weithiau fel un gymwys i ganu mesur Hen Benillion arni, sef penillion pedair llinell wyth sillaf yn diweddu'n ddiacen. Ond sylwer mai sôn sydd yma am ganu "cwydd pedwar", nid Cywydd Deuair Fyrion. Gwir, eithr awgrymaf mai dau ymadrodd am yr un mesur yw'r rhain. Pedwar curiad, dim mwy, dim llai, sydd mewn cwpled Cywydd Deuair Fyrion, fel y gwelsom yn gynharach, boed y llinellau yn bedair neu bum sillaf. Mewn Cywydd Deuair Hirion, ar y llaw arall, gellir cael tri a phedwar curiad o fewn llinell, ac o chwech i wyth curiad mewn cwpled. Mae *nifer* y curiadau mewn Cywydd Deuair Fyrion, felly, yn ddigon penodol i wahaniaethu rhyngddo a ffurfiau eraill ar y cywydd, ac yn sail digonol i roi enw arall arno.

Mae *posibilrwydd* arall hefyd y dylid ei nodi, sef bod rhai ceinciau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol ar gyfer canu Cywydd Deuair Fyrion wedi cael eu haddasu'n ddiweddarach i ganu mesurau eraill. *Gallai* hyn, er enghraifft, fod yn wir am y gainc a ddefnyddir gennym ni heddiw i ganu carol Yr Hen Ficer, "Awn i Fethlem".

(ii) Os wyf yn gywir ynglŷn ag ystyr yr ymadrodd "cwydd pedwar" daw cwestiwn arall hynod o ddiddorol i'r amlwg, sef beth yw ystyr yr ymadrodd "canu pedwar ac acennu"? Fe gofia'r cyfarwydd bod gwneud hyn yn un o'r hen bedair camp ar hugain. Yrŵan, bu'r cwestiwn hwn yn fy mlino'n achlysurol dros lawer blwyddyn, heb oleuni'n dod o unman. Ond, wrth geisio gosod geiriau mesur Cywydd Deuair Fyrion ar rai o'r ceinciau a gyflwynais uchod, credaf imi gael goleuni ar y cwestiwn o'r diwedd. Eithr stori arall yw honno.

Olnodiad

Yn ystod y drafodaeth a ddilynai'r ddarlith hon nododd Mrs Nansi Selwood, Pencae, Penderyn, iddi glywed ei thaid, Gwrthefyr Roderick (1860-1946), yn canu rhan gyntaf Cainc 1, ac erbyn ailfeddwl credai Mrs Selwood fod geiriau'r cwpled "Ar ei gwartha mi ddechreua" hefyd yn gyfarwydd iddi. Ganwyd a magwyd Gwrthefyr Roderick yn Nhonyrefail, Morgannwg, a byddai'n llunio yn ogystal â chanu penillion, yn dilyn y Fari Lwyd a mynychu'r eisteddfodau lleol. Tra diddorol imi oedd cael y dystiolaeth hon i gywirdeb cofnodi yr hen Iolo ac i wytnwch dryll o gân yn mynnu parhau.

SUMMARY

The above is the script of a lecture delivered at the Welsh Folk Museum's 1985 Easter School on the theme "Traditional Life in Glamorgan". Musical illustrations were provided by both renderings and recordings.

The lecture examines the Cywydd Deuair Fyrion metre and some tunes to which it has been sung. This metre, basically consisting of rhymed couplets of four stresses each, was traditionally sub-bardic. By the late seventeenth and early eighteenth centuries it was much employed in the religious and didactic halsing verses that were sung in the churches of southern Cardiganshire, but by the end of the eighteenth century had seemingly passed out of use except in the spurious reconstructions of Edward Williams ("Iolo Morganwg") in Glamorgan.

*On examination, Williams's manuscripts are found to contain seven tunes — not, it would seem, his own creations — which can fit the Cywydd Deuair Fyrion metre. From the same county in an earlier period, this metre also occurs extensively in verse produced around the middle of the sixteenth century (See the volume *Hen Gwndidau, Carolau a Chywyddau*, edited by C.J. Hopkin-James and T.C. Evans, Bangor, 1910).*

The musical characteristics of these tunes are examined above, particularly in terms of motif repetitions and variations. Five additional tunes or songs from alternative sources are then discussed. In each case the latter are seasonal custom-songs: two from the wren-hunt ritual and the remaining three being New Year quète songs (with two of them incorporating wassailing elements).

In closing, the suggestion is offered that previously cryptic sixteenth-century references to singing a "cywydd pedwar" ("a cywydd four") and to "canu pedwar ac acennu" ("singing four and accenting") actually refer to the four-stressed Cywydd Deuair Fyrion metre. Ed.

MELUS-SEINIAU CYMRU
(*The Melus-Seiniau Cymru Manuscript*)

Daniel Huws

Un o gymwynaswyr mwyaf oll canu traddodiadol y Cymry oedd John Jenkins, "Ifor Ceri". Mae ar gadw swmp o'i bapurau personol yn ogystal â phapurau amryw o'i gyfeillion a gohebwy'r, deunydd bywgraffiad o'r gŵr hoffus hwn a gyfrannodd gymaint i ddiwylliant Cymraeg ei gyfnod. Diau y daw bywgraffiad rywddydd. Yn y cyfamser medrwn fodloni ar ddau gofiant sy'n rhoi inni bortreadau crwn o John Jenkins, y naill gan Stephen J. Williams a'r llall gan Mary Ellis.¹ Yn yr ysgrif hon ni fynnaf ond edrych ar un agwedd ar waith John Jenkins, sef ei waith fel cofnodwr a chasglwr alawon gwerin, gan edrych yn enwedig ar y ddau gasgliad mawr o'i eiddo sy'n weddill inni, *Melus-seiniau Cymru* a *Per-seiniau Cymru*. Priodol fydd ceisio pennu natur a chydberthynas a dyddiadau'r casgliadau hyn sydd yn ffynhonnell mor neilltuol werthfawr i chwioltwyr hanes canu traddodiadol Cymreig.

Ond cyn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, bydd yn gyfleus crynhoi rhyw ychydig am hanes cynnar John Jenkins. Fe'i ganed yn 1770 yn Cilbronnau, plasty bychan ym mhlwyf Llangoedmor, yn Nyffryn Teifi, yr hynaf o bum plentyn. Am y teulu fe gofnoda "Gwallter Mechain": "Yr oedd eofndra yn gynneddf berthynol i deulu Mr J. Os dywedid yn Ngheredigion, yn oes y "ffusto", bod "un o waed Cilbronau" ar y maes, ni byddai amheuaeth gan neb na ddeuai hwnnw yn fuddugol o'r chwareu cnapan, neu unrhyw gamp arall", a "Pereiddlais oedd cynneddf arall yn hanfodol i dylwyth Cilbronnau".² Aeth John Jenkins yn fyfyrwr i Rydychen yn 1789 a graddio yn 1793. Cafodd ei urddo yn 1794 a mynd yn gurat at ei ewythr, Dr John Lewes (un o deulu Llysnewydd) yn Whippingham, Ynys Wyth. Yna, yn 1799, aeth yn gaplan i'r llynges. Bu yn India'r Gorllewin a'r haint felen yn degymu'r dynion. Yno, "pan oddiweddai y pruddglwyf (rhagfynedydd yr haint) ef — pan oedd ei gyd-forwyr yn meirw ar ddeheu ac ar aswy", arfer John Jenkins oedd "cymeryd ei grwth (*violoncêlo*) a chwareu arni rai o beraidd donau Gwent a Morganwg, y rhai ydynt lawer mwy bywiog a chynhyrfaol nag arafach geinciau Gwynedd a Dyfed".³ Yr oedd cerddoriaeth ymhlith y llyfrau a oedd ganddo i'w pacio pan hwyliodd ar y llong *Agincourt* o Spithead yn 1800.⁴

Yn 1807 aeth John Jenkins yn ficer i blwy Ceri yn sir Drefaldwyn. Dyma ble y bu hyd ei farw. Ei gartref yng Ngheri a ddaeth yn enwog ymhlith beirdd a cherddorion Cymru fel cartref ail Ifor Hael. Oddiyma y bu ei ddylanwad yn fawr ar ei esgob, Thomas Burgess, ac ar ei gyd-offeiriaid a'i gydwladwyr yn gyffredinol, ynglŷn â sefydlu'r *Cambrian*



Y Parch. John Jenkins ("Ifor Ceri") pan oedd yn ficer plwyf Ceri, sir Drefaldwyn. Peintwyd y llun gan Hugh Hughes ym Mai 1826, tua thair blynedd cyn marw'r offeiriad.

The Rev. John Jenkins ("Ifor Ceri") when he was vicar of Ceri parish, Montgomeryshire. The portrait was painted by Hugh Hughes in May 1826, about three years before Jenkins's death.

Llun: Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Cyhoeddir trwy garedigrwydd Mr Griffith Philipps.
Photo: National Museum of Wales. Published by courtesy of Mr Griffith Philipps.

Societies a'r eisteddfodau taleithiol (gan gychwyn ag eisteddfod Caerfyrddin yn 1819) ac o ran hybu llenyddiaeth a chyhoeddi Cymraeg. Mae eraill wedi sgrifennu'n dda am y gweithgarwch hwn.⁵ Ymddengys mai ar ôl ymsefydlu yng Ngheri yr aeth John Jenkins ati o ddifri i gofnodi alawon Cymreig.

Cynrychiolir dwy gyfrol yn y Llyfrgell Genedlaethol gan y rhif NLW 1940A. Anffodus braidd ydyw eu bod yn dwyn yr un rhif: tueddir i gyfeirio atynt fel petaent yn un gwaith mewn dwy gyfrol a'r gwaith hwnnw'n dwyn yr enw *Melus-seiniau Cymru*.⁶ Ond nid un gwaith mohonynt, na dwy gyfrol unffurf er eu bod o'r un maint. Priodol fydd gwahaniaethu rhyngddynt a disgrifio'r allanolion cyn mynd ymlaen i sôn rhywfaint am eu cynnwys.

Llawysgrif NLW 1940A i (Melus-seiniau Cymru)

Cyfrol 194 o ddail, yn hirgul, 140 x 235 mm. Y rhwymiad â chloriau o groen llo wedi'i raenio, addurnwaith euredig, a chefn o ledr moroco coch. Wedi'i llythrennu ar y meingefn MELUS / SEINIAU / CYMRU. Ymddengys fod y prif destun wedi'i sgrifennu cyn rhwymo'r llyfr: sylwer sut y mae mymrin o'r sgrifenedig wedi'i docio ar ff. 44, 47 ac 119. Nid oes dyfrnod ym mhapur corff y llyfr ond ceir y dyddiadau 1805 ac 1813 yn nyfrnodau'r dail rhwymo (ff. 191 ac 194). Cynnwys:

- 2-26 *Melus-seiniau Cymru / or / The Melodies of Wales / Rhan Itaf / yn cynnwys Salmau a Hymnau*. Fe ddilyn 37 o donau wedi'u rhifo yn 1-37.
- 28-48 *Melus-seiniau Cymru. Rhan Itaf / Dosbarth 2fed / yn cynnwys Hymnau*. Fe ddilyn 40 o donau wedi'u rhifo yn 1-40.
- 50-96 *Melus-seiniau Cymru. Rhan 2fed / yn cynnwys Marwnadau, Carolau a Chaniadau Moesol*. Fe ddilyn 57 o alawon wedi'u rhifo yn 1-57, ac un amrywiad heb rif.
- 100-149 *Melus-seiniau Cymru. Rhan 3dydd / yn cynnwys Caniadau ar filwriaeth, carwriaeth ac amryw destunau difyr a digrif*. Fe ddilyn 48 o alawon wedi'u rhifo yn 1-48, a dau amrywiad heb rif.
- 151-178 *Chwanegiad No I*. Fe ddilyn parhad o Ran 1 yn cynnwys 23 o donau, y deg cyntaf wedi'u rhifo yn 38-47, a 13 heb eu rhifo.
- 179-190 *Chwanegiad No IV*. Parhad o Ran 3 yn cynnwys 17 o alawon wedi'u rhifo yn 49-65.

Ceir peth tystiolaeth fewnol am ddyddiad sgrifennu'r gyfrol yn y llyfrau printiedig y cyfeirir atynt ynddi. Y llyfrau diweddaraf a grybwyllir yn nhestun cysefin y gyfrol yw *Cell Callestr* (1815), *Y Cydymaith Difyrgar* (1815), *Blwch o Bleser* (1916) ac *Afalau'r Awen* (1816). Mae

ychwanegiadau mewn inc diweddarach yn Rhan 1 yn cyfeirio at *Telyn Dafydd* (1820) ac y mae un cyfeiriad tua diwedd “Chwanegiad IV” (ar f. 187^v) at drydedd gyfrol y *Cambro-Briton* (1822). Cafodd John Jenkins “Caingc yr aradwr”, a ychwanegodd ar f. 188^v, mewn llythyr gan Anŵurin Owen yn 1825.⁷ Sonnir isod am y dystiolaeth allanol sy’n awgrymu dechrau’r casgliad hwn yn 1817-18. Mae’n debygol felly i’r rhan fwyaf o’r gyfrol gael ei sgrifennu yn ystod 1817-20 ond bod ychwanegu ati hyd 1825.

Llawysgrif NLW 1940A ii (Per-seiniau Cymru)

Cyfol 140 o ddail, yn hirgul, 140 x 235 mm. Y rhwymiad o groen llo wedi’i raenio. Darn o ledr moroco coch ar y meingefn wedi’i lythrennu MEL SEIN / CYMRU; “I” mewn panel o dan y darn coch. Ymddengys yn gyfrol wedi’i rhwymo cyn ei sgrifennu. Mae’r dail yn ddau fath o bapur am yn ail, y naill yn dwyn dyfrnod â’r dyddiad 1814 (e.e., ff. 17, 93) a’r llall yn dwyn dyfrnod â’r dyddiad 1820 (e.e., ff. 67, 104). Cynnwys:

- 1 *Melus-seiniau Cymru / Adran I / yn cynnwys Tonau cyfaddas i Destynau difrifol.* Mewn pensel, yn llaw John Jenkins, mae’r gair *Melus* wedi’i ddileu a *Per* wedi’i sgrifennu uwch ei ben.
- 1^v-2^v Rhestr cynnwys
- 3-95 101 o alawon wedi’u rhifo yn 1-101, a 52 ohonynt yn tarddu o’r *Melus-seiniau* (NLW 1940A i).

Y llyfrau printiedig diweddaraf y cyfeirir atynt yn y testun yw *Eos Ceiriog* (1823), *Blodau Dyfed* (1824) a’r *Gwylidydd* (rhifynnau’n ddyddiedig 1823-4). Gan ystyried hefyd y dystiolaeth allanol (gw. isod) gallwn ddyddio gweithgarwch John Jenkins ar y gyfrol hon i 1824-5.

Disgynnodd y ddwy gyfrol NLW 1940A i a ii, ynghyd â llawer o lawysgrifau a phapurau eraill John Jenkins, trwy’r teulu nes iddynt ddod i’r Llyfrgell Genedlaethol. Mae un llawysgrif arall o waith John Jenkins y dylid sôn amdani yn y cyswllt presennol, hithau hefyd yn y Llyfrgell Genedlaethol erbyn hyn, sef llawysgrif J. Lloyd Williams 36. Bu hon mor gynnar ag 1820 ym meddiant Mair Richards, Darowen, a daeth gyda llawysgrifau eraill Mair Richards i gasgliad y Prifathro J.H. Davies cyn cyrraedd dwylo’r Dr John Lloyd Williams.

Llawysgrif J. Lloyd Williams 36 (Melus-geingciau Deheubarth Cymru)

Cyfol 34 o ddail, yn hirgul, 135 x 235 mm. Cloriau llipa â phapur marmor drostynt. Ymddengys yn gyfrol a brynwyd yn barod at sgrifennu ynddi. Ceir y dyddiad 1812 yn nyfrnod papur y dail rhwymo. Y tu mewn i’r clawr mae llofnod Mair Richards a’r dyddiad 1820 wrtho. Ar ddalen 1 ceir y teitl *Melus-geingciau Deheubarth Cymru / or / The Melodies of South Wales*. Fe ddilyr ar ff. 2^v-27^v 27 o alawon wedi’u rhifo yn 1-27, a 13 ohonynt â

geiriau. Mewn gwagleoedd ar ff. 2-17 a 24 fe ychwanegwyd gan law arall 13 o alawon heb eiriau. Llanwyd gweddill y llyfr gan John Jenkins ei hun â 29 o alawon eraill (dwy ohonynt yn ddyblygion ar alawon a oedd eisoes yn y llyfr), a'r rhain oll heb eu rhifo a heb eiriau ac mewn llaw flerach. Yn wahanol i'r *Melus-seiniau* a'r *Per-seiniau*, ni chyfeirir at eiriau priodol mewn unrhyw lyfr print. O'r alawon sydd yn llaw John Jenkins yn y *Melus-geingciau* sylwais ar 25 ohonynt hefyd yn y *Melus-seiniau* (er bod rhai dan enwau gwahanol yno). Ymddengys i'r llyfr ddechrau yn rhyw gasgliad safonol, gyda'r gyfres rifedig, ac yna droi yn rhyw lyfr casgl a'r alawon yn cael eu codi ohono i lyfrau eraill, y *Melus-seiniau*'n un ohonynt, a lyfrau ychwanegol efallai sydd bellach ar goll. Dichon i John Jenkins godi ei chynnwys i gyd erbyn 1820 a'i rhoi i'w gyfaill Mair Richards. Perthyn cynnull y llyfr, felly, i gyfnod rhwng 1812 ac 1820. Gwelir isod fod rheswm i'w ddyddio cyn 1817-18. Felly, dyweder o gwmpas 1815.

Mae un cyfeiriad gan John Parry, "Bardd Alaw", yn awgrymu i John Jenkins ddechrau casglu alawon mor gynnar ag 1790.⁸ Geill fod hyn yn wir, ond rhaid sylwi fod y casgliadau llawysgrif cynharaf sydd ar glawr yn dyddio o ail ddegawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn llythyr pwysig a sgrifennodd John Jenkins at John Parry ar 11 Chwefror 1826 (ac a argreffir isod yn Atodiad I) fe ddywed mai rhyw naw mlynedd cyn hynny y dechreuodd ei gasgliad, wedi iddo fod yn darllen y *Blodeugerdd*⁹ a chyfrolau tebyg a gweld angen achub yr hen geinciau. Awgryma hyn iddo ddechrau llunio ei gasgliad yn 1817-18. Awgryma'r cyfeiriad at y *Blodeugerdd* mai am gyfrol y *Melus-seiniau* y mae'n sôn: dengys yr aml gyfeiriadau at ffynonellau printiedig yn y casgliad hwnnw iddo darddu o gyfnod wedi i John Jenkins gael ei ysgogi gan ddarllen y *Blodeugerdd* a'i fath. Prin mai at y *Melus-geingciau* y cyfeirir yn y llythyr: yn y casgliad hwnnw nid oes unrhyw ymwybyddiaeth am ffynonellau printiedig y geiriau i'r alawon. Dyma'r rheswm felly dros gynnig dyddiad cyn 1817-18 i'r *Melus-geingciau*.

Mae'r llythyrau at John Parry yn rhoi amcan pur dda inni sut yr oedd John Jenkins yn gwneud ei gasgliad a beth oedd ei gymhelliad a'i agwedd at ei ddeunydd. Nododd alawon a oedd yn gyfarwydd iddo; cafodd eraill gan ei "gyfeillion cerddorol"; âi at ganwr cyn yr âi at delynor; os na chawsai enw ar alaw fe roddai enw o'i fathiad ei hun. Yn y *Melus-seiniau*, ond fyth yn y *Per-seiniau* a dim ond unwaith yn y *Melus-geingciau*,¹⁰ fe rydd enw person uwchben yr alaw, neu enw lle, yn gofnod o'r ffynhonnell. Fel arfer fe rydd eiriau o dan yr alaw, gan eu cyfyngu'n aml i un pennill yn unig. Mater y mae'n rhaid dychwelyd ato yw ffynonellau'r geiriau hyn.

Trown yn awr i edrych ar ffynonellau'r alawon fel y'u cofnodir hwy yn y *Melus-seiniau*. Lle mae modd adnabod y bobl a enwir, gwelir mai rhai addysgedig oeddynt, "cyfeillion cerddorol". Gwelwn hefyd fod peth tystiolaeth mai trwy gyfrwng copïau llawysgrif y trosglwyddwyd i John Jenkins lawer o alawon.

Yn Rhan 1, sy'n cynnwys y salmdonau a'r emyndonau, rhoddir "JJ" uwchben 46 o'r tonau. Nid oes enw lle wrth yr un ohonynt, ond yn amlach na pheidio fe awgrymir lleoliad gan yr enw a roddir ar y dôn. Yn Rhan 2 a Rhan 3 ceir "JJ" wrth 36 o alawon, ac wrth bob un ond tair o'r rhain fe enwir rhanbarth: Deheubarth 16 o weithiau, Ceredigion 14, Morgannwg 2 a Chaerfyrddin 1 waith.

Yn nesaf at John Jenkins ei hun, y ffynhonnell a enwir amlaf yw "Darowen". Yr oedd John Jenkins yn gyfeillgar ag amryw o aelodau athrylithgar a cherddorol y teulu Richards, Darowen.¹¹ Dyna yn ddiau y prif reswm am amlygrwydd alawon o Ddarowen yn ei gasgliad. Cysylltir naw o donau yn Rhan 1 â Darowen ac yn Rhan 2 mae cyfres o 17 o alawon y cyfeirir atynt fel "Darowen 1", "Darowen 2" hyd at "Darowen 17". Ar ddechrau llawysgrif Cwrtmawr Music 30, mewn llaw anhysbys, digwydd y 17 hyn yn yr un drefn yn union: yr oedd y llyfr hwn gan Mair Richards erbyn 1816 a hi a'i llanwodd wedi hynny. Cyplysir enw Mr Mathews o Dregynon â dwy o alawon Darowen. Gŵr arall o Ddarowen a gasglai alawon oedd John Gwynn, y cawn sôn amdano isod.

Priodolir 13 o alawon i David Jenkin Morgan. Dyma Dafydd Siencyn Morgan y cerddor o Langrannog.¹² Mae cyfres o 29 o alawon yn ei law yn llawysgrif NLW 1932E, eitemau 60/2, 3 a 5 ond nid ymddengys i John Jenkins godi'r un o'r fersiynau hyn i'w gasgliad. Cofnodir enw "J. Howells" wrth 12 o alawon sydd ymhlith yr ychwanegiadau diweddaraf yn y *Melus-seiniau*, hwythau'n tarddu o Ddeheubarth, Caerfyrddin a Cheredigion. Mae'n ymddangos mai John Howell a Lanymddyfri oedd hwn, cerddor, bardd ac athro ysgol.¹³ Yr oedd yn un o ohebyddion John Jenkins a chawn gofnod o ddechrau'r cysylltiad rhyngddynt mewn llythyr dyddiedig 3 Mawrth 1820 gan John Jenkins at W.J. Rees, Casgob, lle dywed, "John Jenkins will thank Mr Rees if he will inquire of Mr John Howells if he is acquainted with any Old Tunes peculiar to Carmarthenshire and the rest of Dyfed, viz melodies not in print adapted to Psalms, Hymns, Carols and Songs".¹⁴ Dyma dystiolaeth, felly, ynglŷn â dyddiad rhai o'r ychwanegiadau diweddar i'r *Melus-seiniau*.

Ni wn pwy oedd y "J. Parry" a gyfrannodd naw o alawon, un ohonynt o sir Benfro ac eraill o sir Gaerfyrddin. Annhebyg mai "Bardd Alaw" ydoedd. Cafwyd naw o alawon gan rhyw "Jehu" o Bowys. Mae lle i feddwl mai Timothy Jehu, athro ysgol yn Meifod, oedd hwn.¹⁵

Nid enwir neb arall wrth fwy na thair alaw. Ymhlith y mân gyfranwyr gellir nodi "J. Cain", sef John Cain Jones, "Siôn Ceiriog", mab Cain Jones ac ŵyr i "Siôn y Potiau".¹⁶ Enwir "Eos y Mynydd" deirgwaith, sef

Thomas Williams, awdur carolau.¹⁷ Ac ai “Dic Dywyll” yw “Richard Williams, Glyncynon” a gyfrannodd ddwy alaw o Forgannwg?

Mae gwybodaeth am darddiad rhai o'r alawon a gasglodd John Jenkins i'w hennill hefyd yn y nodiadau a anfonodd at John Parry (gw. eto isod) ac yn ei ohebiaeth. Mae'r diddordeb neilltuol a berthyn i beth o'r wybodaeth hon yn achos gresynu na fu i John Jenkins gofnodi rhagor o wybodaeth gefndirol yn ei gasgliad. Gweler, yn un enghraifft, yn yr ail lythyr at John Parry a gyhoeddwyd yn Atodiad I, y cyfeiriad at ddisgynydd i ddatgeiniad a fu'n canu gerbron Huw Morys; tebyg mai cyfeiriad at John Cain Jones sydd yma. A dyna'r nodyn am un fersiwn ar y “Tri tharawiad”: “To this ancient air Mr Edward Richard the worthy and learned founder of Ystradmeurig school composed his admired pastorals. This was noted down from the singing of an old gentleman who was his pupil at that time”.¹⁸ Bu Thomas Richards Darowen yn un o ddisgyblion Edward Richard. Ai fo oedd yr hen ŵr?

Lle nad enwir ffynhonell gan John Jenkins, rhaid dyfalu. Mae ambell alaw ganddo'n agos iawn i fersiynau a welir yng nghasgliadau printiedig “John Parry Ddall” a “Bardd y Brenin”, ond y mae'n groes i'r hyn a wyddom am John Jenkins i dybied y byddai'n chwyddo ei gasgliad yn ofer â deunydd a oedd eisoes ar gael mewn print. Y tebyg yw iddo gael y fersiynau hyn gan gerddorion, naill ai trwy glywed eu canu neu, yn fwy tebygol efallai, trwy gopiâu llawysgrif. Gweler, er enghraifft, ei fersiwn ar “Diniweidrwydd y golomen”; anodd credu nad o *British Harmony* John Parry y mae hon yn tarddu yn y pen draw.

Yn 1824 daeth cyfle i John Jenkins geisio rhwydo'n fwy eang. Un o'r eisteddfodau taleithiol hynny y bu ef i raddau helaeth yn gyfrifol am ei bodolaeth hi oedd eisteddfod Powys a gynhaliwyd yn Y Trallwng ar 7-9 Medi 1824. Yn yr eisteddfod hon fe gynigiwyd gwobr am “y casgliad gorau o hen donau Cymreig na fuont erioed yn gyhoeddedig, sef tonau, carolau, caniadau a phennillion, y cyfryw ag sy'n gynnwysedig yn ngwaith *Huw Morus, Y Blodeugerdd*”.¹⁹ Nid anodd dyfalu pwy a awgrymodd y testun na syndod darllen mai'r Parch. J. Jenkins a etholwyd i feirniadu'r gystadleuaeth.²⁰ Bu dau ymgeisydd a dyfarnwyd y wobr o dri gini i A.O. Pughe, Ysw., o Nantglyn,²¹ gŵr sy'n fwy hysbys inni dan yr enw Aneurin Owen. Mae ei gasgliad buddugol, yn ei llawysgrifen ei hun, ar gael ymhlith papurau John Jenkins, yn llawysgrif NLW 1932E, eitem 48. Ceir yma gasgliad gwerthfawr yn cynnwys 105 o geinciau. Mae llawer ohonynt heb fod wedi'u casglu gan John Jenkins o'r blaen (hyd y medrwn farnu) ac eto ni welaf ei fod wedi codi mwy na phedair ohonynt i'w gasgliad ei hun.²² A oedd ei awch i chwyddo ei gasgliad yn dechrau pylu?

Y cystadleuydd aflwyddiannus yn Y Trallwng oedd “Philomusus”. Ei gasgliad ef yw eitem 49 yn llawysgrif NLW 1932E. Lle bu ei enw gynt dan sêl gellir darllen heddiw: “John Gwynne, Gwastadgoed, Darowen”. Cynnwys ei gasgliad ef 104 o geinciau a dyma gasgliad gwerthfawr arall.

Yn y casgliad hwn fe welir alawon sy'n cyfateb yn agos i 14 o'r 17 a briodolir i "Darowen" yn Rhan 2 y *Melus-seiniau*. Ond ni sylwais ar un alaw o gasgliad John Gwynne y mae lle y dybied ei chodi i naill ai'r *Melus-seiniau* na'r *Per-seiniau*.

§

Wedi inni fwrw golwg dros yr hyn sydd ar glawr o gasgliad John Jenkins, ac ar ei ffurf a'i gynnwys, mae modd gosod gweithgarwch y cynullydd mewn fframwaith amseryddol ac amcanu sut y datblygodd ei fwriad. Gwelwn yr un pryd sut y daeth ei gasgliad yn chwarel i eraill a fu'n ymhél â chyhoeddi cerddoriaeth Gymreig.

Gwelsom eisoes dystiolaeth o gariad John Jenkins at yr hen alawon pan oedd yn ŵr ifanc, a'r honiad iddo ddechrau casglu mor gynnar ag 1790. Ond ymddengys mai'r *Melus-geinciau*, a amserwn tuag 1815, yw'r casgliad cynharaf o'i eiddo sydd ar glawr. Ymddengys hwn yn gasgliad o geinciau a chaneuon llafar gwlad dilys: nid oes lle amlwg i amau nad yw'r alawon a'r geiriau hwythau (pan roddir rhai) wedi'u codi oddi ar lafar. Casgliad, felly, o alawon a chaneuon er eu mwyn eu hunain, casgliad *amateur* yn y gwir ystyr.

Yn 1817-18, yn ôl ei dystiolaeth ei hun, dechreuodd John Jenkins gasgliad o alawon ac iddo ddiben arbennig, sef casglu'r alawon a enwir mewn perthynas â barddoniaeth y canu rhydd Cymraeg, yn enwedig ganu Huw Morys a'i ddilynwyr. Y casgliad hwn, fel yr awgrymwn, oedd y *Melus-seiniau*, y mae modd gosod ei lunio dros y cyfnod 1817-25. Gwelwn natur y casgliad hwn yn gliriach efallai trwy ei gymharu â'i olynydd, y *Per-seiniau*, casgliad y medrwn osod ei gynnwl yn y blynyddoedd 1824-5. Mae'r *Melus-seiniau* yn benagored, yn gasgliad yr oedd modd ychwanegu fel y mynnid at unrhyw adran ohono; mae'r *Per-seiniau* ar y llaw arall yn gasgliad crwn o 101 o alawon, hoff nifer ar gyfer detholiadau, â rhestr ohonynt ar ddechrau'r gyfrol. Mae'r naill yn gasgliad a'r llall yn ddetholiad. Yna, cynnwys y *Melus-seiniau* salmdonau ac emyndonau, yn ei amgyffred eang (a hyn ymhell cyn bod casgliad o donau Cymreig ar gael mewn print); nid oes yna na salmdonau nac emyndonau yn y *Per-seiniau*. Yn y *Melus-seiniau* digwydd gwahanol fersiynau ar alaw yma a thraw; yn y *Per-seiniau* y maent bob amser wedi'u grwpio ynghyd, e.e., tri fersiwn ar "Ffarwel Ned Puw", tri ar "Anhawdd ymadael", pump ar "Mentra Gwen". Yn y *Melus-seiniau* fe enwir pobl yn aml, yn ffynhonnell i alaw; yn y *Per-seiniau*, fyth. Mae enwi lleoedd hefyd yn brinnach yn y *Per-seiniau*, ac yn llai penodol: try ambell "Darowen" a "Ceredigion" yn y *Melus-seiniau* yn "Gogledd" a "Deheubarth" yn y *Per-seiniau*. Yn y *Melus-seiniau*, er bod y mwyafrif o'r alawon yn dwyn geiriau sy'n gysylltiedig â ffynhonnell brint ceir amryw sy'n dwyn geiriau heb unrhyw sôn am ffynhonnell felly; yn y *Per-seiniau* fe gyfeirir yn rheolaidd at ffynonellau print. O hyn i gyd amlygir natur y *Melus-seiniau* yn gasgliad

cynhwysfawr, un gwrthrychol, un a oedd yn weithred achub, yn gasgliad at ddefnydd y casglwr ei hun. Geill fod y syniad o lunio casgliad o alawon ar gyfer ei gyhoeddi wedi taro John Jenkins tra bu wrthi ynglŷn â'r *Melus-seiniau* ond y mae'n weddol eglur na fwriadwyd y *Melus-seiniau* ei hun ar gyfer ei gyhoeddi.

Mae'r gwahaniaethau a welir yn y *Per-seiniau*, o'i gymharu â'r *Melus-seiniau*, i gyd yn awgrymu mai fel sylfaen cyhoeddaiad y bwriedid y detholiad hwn. Ond ni chwplawyd y gwaith. Mae'r tudalen teitl yn dangos mai "Adran I" yn unig a gynhwysir yn y gyfrol. Ac nid yw "Adran I" yn gyflawn chwaith, gan nad ychwanegwyd geiriau i'r alawon ar ôl rhif 47 (gydag un eithriad). Cyn cwplâu paratoi'r detholiad yr oedd John Jenkins wedi dechrau newid ei feddwl ynglŷn â'i gynnwys. Ac erbyn 1826 fe ymddengys ei fod wedi rhoi heibio'r syniad o dcluso ei ddetholiad ei hun. Gellir darllen ei lythyr at "Fardd Alaw" yn rhyw fath o destament yn trosglwyddo ei ddeunydd i ddwylo'r cerddor. Dwylo annheilwng, fel y cawn weld.

Yn llawysgrif NLW 1936B, eitem 3, mae rhestr "Welsh Tunes sent to Mr Parry January 28 1826 and the words adapted to them with some observations on both", yn gyfres rifedig o 71 o alawon (ond bod tair yn digwydd ar y rhif 14). Dyma'r "Lot gyntaf" y cyfeiria John Jenkins ati yn ei lythyr at John Parry. Ynddi mae'n nodi ar gyfer pob alaw y bar agoriadol a'r geiriau agoriadol ynghyd â chyfeiriad at eu ffynhonnell brint neu lawysgrif, ac ar gyfer ambell un nodiadau gwerthfawr ar yr alaw. Gellir edrych ar y detholiad hwn fel olynnydd y *Per-seiniau*. Yn ei ddechrau mae'n dilyn y *Per-seiniau* ond nid oes ond hanner ei gynnwys yn dod o'r detholiad hwnnw; daw'r gweddill yn bennaf o'r *Melus-seiniau* (heb ymddangos yn y *Per-seiniau*) a daw wyth o alawon o ffynonellau eraill.²³ Erbyn hyn mae John Jenkins wedi dewis geiriau gwahanol ar gyfer rhai alawon ac wedi darganfod geiriau ar gyfer alawon a oedd hebddynt yn y *Melus-seiniau* a'r *Per-seiniau*. O gymharu â'r *Per-seiniau*, mae rhai fersiynau amrywiol wedi cael eu chwynnu. Gellir olrhain y manylion i gyd yn Atodiad II isod. Ac nid rhestr y "Lot gyntaf" sy'n cynrychioli syniadau diweddaraf John Jenkins chwaith. Yng nghyfrwl y *Per-seiniau*, ar damaid rhydd o bapur (dyfrnod 1823, yn awr f.i.), ceir rhestr "Tunes taken from the 1st Collection and inserted in the 2nd" yn cynnwys 19 o alawon, bob un ohonynt yn y "Lot gyntaf". Dyma John Jenkins, felly, yn diwygio o hyd. Ac yn llawysgrif NLW 1932E, eitem 61/1-3, ceir rhestr foel "Welsh Tunes for a Second Collection" yn cynnwys 107 o alawon, wyth ohonynt wedi'u dileu. Gyferbyn â rhifau 22-47 yn y rhestr nodir "The tunes within this bracket to be inserted in the first collection and others taken from thence to render the two more uniform". Mae'n debyg mai'r "ail gasgliad" hwn yw'r "ail Lot" y sonnir amdani yn y llythyr at John Parry. Rhyw draean o'r alawon a enwir yn y rhestr hon sydd heb fod yng nghasgliad John Jenkins; o'r traean hwn mae'r rhan fwyaf yn geinciau a oedd yn adnabyddus ac eisoes mewn print,

e.e., “Gwyr Harlech”, “Ar hyd y nos”, “Llwyn Onn”, “Meillionnen” a “Nos galan”.

O'r cychwyn bu John Jenkins yn hynod hael â'r deunydd a gasglodd. Erbyn 1819 yr oedd yn gohebu ag Edward Jones, “Bardd y Brenin”. Cedwir rhai o lythyrau hwnnw at John Jenkins. Mewn llythyr dyddiedig 13 Medi 1819 gofynnodd “Bardd y Brenin” am gopi da o “Ffion Velved” ac â ymlaen i ddweud “You was so good as to promise me a copy of those Welsh airs which you had collected”.²⁴ Mewn llythyr diweddarach, heb ddyddiad ond fe ellir ei ddyddio i 1819 neu 1820, fe ddiolch am “Ffion Velved” ac yna dywed “The names of the Welsh tunes which you was so good to send me has set me a gog” gan restru 16 o alawon yr hoffai gael copïau ohonynt.²⁵ O'r alawon hyn, mae 11 yn digwydd ymhlith y 28 alaw gyntaf yn Rhan 2 y *Melus-seiniau*; un yw'r alaw gyntaf yn Rhan 3; mae un yn digwydd yn y *Melus-geingciau* a thair heb ddigwydd (nid, o leiaf, dan yr un enwau) yn yr hyn sy'n weddill o gasgliad John Jenkins.²⁶

Erbyn 1819 hefyd yr oedd John Jenkins mewn cysylltiad â cherddor arall, John Parry, “Bardd Alaw”, disodlwr “Bardd y Brenin” fel cynrychiolydd ffasiynol cerddoriaeth Gymreig yn Llundain. Yn ystod ugeiniau'r ganrif bu tipyn o ohebiaeth rhwng y ddau ynglŷn â threfniadau eisteddfodol. Mewn nodyn yn ail gyfrol *The Welsh Harper* (1848) mae John Parry yn cydnabod, yn briodol iawn, ei ddyled i John Jenkins “for a great proportion of the airs inserted in this volume. A collection of which, in his own handwriting, amounting to one hundred and eighty seven, was presented to the Editor at the Eisteddfod held at Wrexham, in 1820, by Mr Jenkins, who had been for thirty years making it, and noting down the various airs, as they were performed by the harpers in different parts of Wales . . .”.²⁷ Os gwir hyn, rhaid mai casgliad arall na wyddom amdano heddiw a roddwyd i John Parry yn 1820. Y tebyg yw ei fod yn cyfateb yn fras i'r *Melus-seiniau*, er na fedrwn ond dyfalu beth yn union a fuasai ei gynnwys.

Gŵr arall a ymddiddorai yn yr alawon Cymreig oedd y Sais J.F.M. Dovaston a gyhoeddodd ddwy gyfrol ohonynt, y gyntaf yn 1817 a'r ail yn 1820. Daeth hwn i gysylltiad â John Jenkins a chyfeiria mewn llythyr at “my collection begun many years ago at the suggestion of my friend Dr Crotch”.²⁸ Cafodd Dovaston yntau fenthyc casgliad John Jenkins yn 1824 gan gopïo ohono ryw 40 o alawon.²⁹ Tebyg mai'r *Melus-seiniau* a gafodd.

Yn 1824 cynhaliwyd eisteddfod Y Trallwng, ac awydd John Jenkins i ehangu ei gasgliad yn amlwg yn fyw iawn o hyd. Yn 1824-5 bu wrthi'n aildrefnu peth o'i gasgliad yn y *Per-seiniau*, gyda golwg, fel yr awgrymwn, ar ei gyhoeddi. Ond yn 1826 dyma drosglwyddo'r gwaith i John Parry.

Nid yw'n amlwg sut y mae cysoni datganiad John Parry iddo gael gan John Jenkins gasgliad yn cynnwys 187 o alawon â'r cyfeiriad yn llythyr John Jenkins yn Chwefror 1826 ei fod yn anfon o'r diwedd “my long promised Lot 1st of Welsh tunes” (sef y detholiad y soniwn amdano

uchod) ynghyd â rhestr o alawon a allai ffurfio'r ail "Lot". Ni wyddom a fu iddo anfon at John Parry yr ail "Lot" ond dengys llythyr 1828 (gw. Atodiad I isod) fod John Jenkins yn dal i fwydo "Bardd Alaw" ag alawon a gwybodaeth y pryd hwnnw.³⁰ Ymhen ychydig dros ddeunaw mis yr oedd John Jenkins yn ei fedd.

§

Priodol yn y fan yma fydd edrych ar yr hyn a wnaeth John Parry yn y pen draw o gasgliad John Jenkins. Yn 1847 fe sgrifennodd at Mrs Jenkins, y weddw: "You will see by the enclosed prospectus that I am about to carry into effect a wish of . . . Mr Jenkins expressed to me nearly thirty years ago".³¹ Er gwaethaf ei eiriau at John Parry yn 1826, "do with them as you please", mae'n amheus iawn a fyddai John Jenkins wedi gweld cyflawni ei ddymuniad yn ail gyfrol *The Welsh Harper* a gyhoeddwyd yn 1848. Mae'r gyfrol yn cynnwys 193 o geinciau. Cydnabyddir casgliadau llawysgrifol John Jenkins, "Owain Myfyr" ac Aneurin Owen yn ffynonellau. Yn anffodus, mae'r casgliadau llawysgrifol a oedd gan John Parry wedi diflannu, ond yn achos casgliadau John Jenkins ac Aneurin Owen mae modd dyfalu i ryw raddau pa alawon a oedd yn debygol o fod ynddynt. Yn ôl fy nghyfrif i, o'r 193 o alawon yn ail gyfrol y *Welsh Harper*, mae lle i honni fod 106 ohonynt yn tarddu o gasgliad John Jenkins;³² gwyddom am ddwy sy'n tarddu o gasgliad "Owain Myfyr" (gan i John Parry sôn yn'ei nodiadau arnynt) ac y mae wyth yn digwydd yng nghasgliad Aneurin Owen yn llawysgrif NLW 1932E; ond o'r wyth hyn y mae tair ymhlith y rhai a gododd John Jenkins o gasgliad Aneurin Owen i'r *Per-seiniau* a dichon mai trwy John Jenkins y cafodd John Parry hwy. Daw deg alaw sydd yn ail gyfrol y *Welsh Harper* o *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844) ac y mae 20 wedi eu cyfansoddi gan John Parry ei hun. Gedy hyn rhyw 50 o alawon â tharddiad anhysbys. Dichon y gwelem lawer ohonynt hwythau'n tarddu o'r tri chasgliad llawysgrifol a enwir pe bai'r casgliadau ar glawr; mae'n bosibl hefyd imi fethu ag adnabod ambell alaw y mae John Parry wedi newid ei henw, er imi geisio olrhain y rhain i gyd. Sonnir isod am hoffter John Parry o newid enwau.

Ni bu John Parry'n ffyddlon i fwriad John Jenkins. Er iddo gyhoeddi dros gant o'r alawon a gasglwyd ganddo, ni chyhoeddodd eiriau i'r un ohonynt na hyd yn oed awgrymu fod yr alawon yn gysylltiedig â geiriau; ni chyhoeddodd chwaith ddim o'r wybodaeth am leoliad casglu'r alawon na'r nodiadau gwerthfawr yr oedd John Jenkins wedi eu darparu ar ei gyfer. Rhoes John Jenkins bwys ar y ffaith ei fod yn ceisio cael alawon gan gantorion; argraffodd John Parry ei gasgliad fel casgliad o geinciau offerynol pur.

Nid anwybyddu'r geiriau a'r holl dystiolaeth parthed eu tarddiad a

chefndir oedd unig drosedd John Parry. Golygodd y gerddoriaeth yn eofn a didostur, gan newid amser a melodi a hyd yr alaw yn ôl ei fympty; ac fe'i cynganeddodd. Gwnaethpwyd sylw droeon am natur anfoddhaol y fersiynau ar alawon a geir yn y *Welsh Harper* II.³³ Mae cymharu'r *Welsh Harper* II â llawysgrifau John Jenkins yn dangos hefyd mai anwiredd yw gosodiad "Bardd Alaw" "I have retained all the original names, except where I found several different airs under the same title".³⁴ Gwir iddo newid ambell enw am y rheswm a roddir, e.e., try'r ail "Anhawdd ymadael" yn "Milwr llawen". Ond heb reswm fe newidiodd "Mwyn Susannah" yn "Bronwen fwyn", "Sybylltir, o dir Môn" yn "Ynys Môn", "Y fedle fawr" yn "Ymadawiad Sidney Edwards" (ar sail awgrym yn y geiriau). Yn fwy chwerthinllyd, gan ddatgelu pa fath ddyn dangos-ei-hun ydoedd, fe newidiodd John Parry "Ffarwel Prydain" yn "Bedd Davydd Gam" a "Tôn carol" yn "Bedd Davydd Ddu", yr olaf er mwyn tynnu i mewn i'r gyfrol ysgythriad o'r bedd honedig a nodyn hynafiaethol am Ddafydd Ddu. Mewn modd cyffelyb fe dry "Haelsyng, fel y cenir ym mlaenau Ceredigion a Chyfeiliog" (naw gair cyfoethog o arwyddocaol) yn "Owain Cyfeiliog", a "Bardd Alaw" yn cael esgus i ddangos ei wybodaeth hanesyddol am Owain Cyfeiliog. Yn y gyfrol drwyddi draw mae dros 40 o alawon y mae John Parry wedi newid eu henwau yn fymptyol ac yn sylfaenol, gan dwyllo hyd yn oed John Lloyd Williams, a gymrodd yr enwau hyn o ddifri yn ei nodiadau yng *Nghylchgrawn* y Gymdeithas hon.

Yn y *Cambrian Journal* yn ystod 1854-7 cyhoeddodd Maria Jane Williams 20 o alawon allan o lawysgrifau John Jenkins.³⁵ Eglurir ei bod hi nid yn unig wedi cael, trwy'r Foneddiges Hall, y llawysgrifau yr oedd John Parry eisoes wedi'u defnyddio ar gyfer y *Welsh Harper* II ond hefyd ei bod, trwy garedigrwydd Mrs Jenkins, ei weddw, wedi cael gweld "Mr Jenkins' Manuscript Music". Dywedir i'w detholiad hi gael ei wneud, felly, "from a collection consisting of 237 melodies". Dyma rif arall nad oes modd ei gysoni â'r llawysgrifau sy'n weddill. O'r 20 alaw, daw 12 o'r *Per-seiniau*, a gwyddom i sicrwydd iddynt ddod yn syth o'r gyfrol gan i Maria Jane Williams roi croes mewn pensel wrth y rhai a ddewisodd a hefyd sgrifennu cyfeiriadau at *Welsh Harper* II wrth eraill.³⁶ Mae chwech o'r alawon a gyhoeddwyd yn y *Cambrian Journal* heb fod yn yr hyn sy'n weddill o gasgliad John Jenkins, cyfartaledd awgrymog o uchel.

Er pan ddaeth llawysgrifau Crosswood i'r Llyfrgell Genedlaethol, ac eiddo John Jenkins yn eu plith, mae'r *Melus-seiniau* a'r *Per-seiniau* wedi cyfrannu i lawer cyhoeddiad, yn enwedig i'r *Cylchgrawn* dan olygyddiaeth John Lloyd Williams. Rhestrir yr alawon a ymddangosodd yn y *Cylchgrawn* yn Atodiad II isod.

Yr hyn a ddymunwn mewn casgliad o alawon gwerin yw nodi'r alaw, yn gywir; nodi'r holl eiriau a genir, yn gywir; a nodi'r ffynhonnell, sef enw person a lle, ac unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n perthyn i ganu'r gân. Er mai wrth safonau'r oes hon y mae'n rhaid inni edrych yn awr ar gamp John Jenkins, a'i mesur, ni thâl inni anghofio yr un pryd beth oedd safonau ei oes ef ei hun.

Edrychwn yn gyntaf ar yr alawon. Nod pennaf John Jenkins oedd casglu'r alawon y canodd beirdd y canu carolaidd arnynt. Testun syndod iddo ef ei hun oedd ei lwyddiant; tybiai iddo gasglu bron y cwbl.³⁷ Efe oedd y cyntaf a'r olaf cyn y ganrif hon i fynd ati o ddifri i gasglu'r ceinciau hyn. Gwahanol oedd ymdrechion Maria Jane Williams yng Ngwent a Morgannwg; fel cerddor y daeth hi at y casglu, yn bur anwybodus am y traddodiad barddonol, a gweithiai mewn gwlad lle ffynnai traddodiad lled wahanol, lle buasai Huw Morys bron yn enw dieithr. O edrych y tu allan i Gymru, gellir cymharu nod John Jenkins ag eiddo William Chappell, genhedlaeth ar ei ôl, yn ceisio ailbriodi cerddi ac alawon yr hen amser. Y gwahaniaeth oedd fod Chappell yn gallu troi at gyfoeth o ffynonellau print a llawysgrif ar gyfer alawon yn ogystal â cherddi tra bod John Jenkins yn gorfod dibynnu bron yn gyfangwbl ar draddodiad llafar ar gyfer yr alawon.

Diddorol yw fod yn well gan John Jenkins godi cainc gan ganwr na chan delynor. Yr oedd ei reddf yn gywir. Yr anffawd fawr (gan edrych o'n safbwynt ni) oedd ei fod wedi cael tipyn o addysg gerddorol a hynny, yn naturiol ddigon, yn ôl dysg yr oes; digon iddo fedru troi ei law at gynganeddu tôn.³⁸ Yn ôl y ddysg honno yr oedd pob alaw naill ai yn y raddfa fwyaf neu yn y leiaf. Cydymffurfia pob alaw yn ei gasgliad â hyn. Nid oes cymaint ag un alaw yn perthyn i unrhyw raddfa arall, ddim hyd yn oed i'r modd a oedd mor nodweddiadol Gymreig, sef y doraidd, modd *r*. Golyga hyn fod yn rhaid amau tonyddiaeth pob alaw yn y casgliad nad yw yn y fwyaf: yn ôl tebygolrwydd ystadegol gellid disgwyl ugeiniau o alawon modd *r*, rhywfaint yn llai ym modd *l* a chymharol ychydig yn y leiaf harmonig.³⁹ Wrth ein safonau ni, fe bechodd John Jenkins, ond trwy anwybodaeth a berthynai i'r oes yn hytrach nag iddo ef yn bersonol. Yn arwydd o'i onestrwydd sylfaenol gellir sylwi ar ei nodyn wrth gwpl o alawon "amended by JJ"⁴⁰; ac yn agwedd arall arno, ar ei barodrwydd i gydnabod fod rhai alawon yn ei gasgliad o dras Seisnig neu Wyddelig.⁴¹ Hwyrach y dyldid sylwi, heb awgrymu unrhyw anonestrwydd, iddo wneud rhai mân newidiadau wrth droi alawon o'r *Melus-seiniau* i'r *Per-seiniau* gan dacluso melodi rhai a newid amser eraill, hyd yn oed o amser triphlyg i amser pedwar yn achos pedair ohonynt (rhifau 105, 108, 109 a 156 yn Atodiad II).

Trown yn awr at eiriau'r alawon. Mae geiriau wrth y rhan fwyaf ohonynt a dyma o bell ffordd y casgliad mwyaf o ganeuon Cymraeg traddodiadol cyn y ganrif hon. Mae'n gasgliad gwahanol iawn i'r

casgliadau o geinciau Cymreig a argraffwyd cyn ei amser ef. Odid y rhoddir unrhyw bwys ar eiriau traddodiadol yng ngasgliadau “John Parry Ddall”, “Bardd y Brenin” a “Bardd Alaw”. Dim ond “Iolo Morganwg”, a'i gasgliad ef heb fodoli ond ar wasgar trwy ei lyfrau poced ac ar dameidiau o bapur, y gellir ei osod o flaen John Jenkins fel casglwr cyntaf caneuon gwerin Cymraeg.

Yr ydym wedi sôn fod y geiriau sydd gan John Jenkins wrth yr alawon yn ei gasgliad fel arfer yn dwyn cyfeiriad at ffynhonnell brint.⁴² Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn ymhob achos yw: a glywodd John Jenkins ganu'r geiriau hyn? Gan wybod ei fod wedi'i symbylu gan yr hyn a welodd yn y *Blodeu-Gerdd* a llyfrau print eraill, rhaid amau. Mae rhagor nag un ystyriaeth yn sail i'r amheuaeth hon. Petai'r geiriau wedi'u codi oddi ar lafar fe ddisgwylid cyfartaledd llawer uwch o gerddi lle na wyddai John Jenkins am ffynhonnell brint gyfatebol; wrth iddo drosglwyddo alawon sydd â geiriau wrthynt o'r *Melus-seiniau* i'r *Per-seiniau* gwelwn ef yn rhoi cerdd wahanol wrth dros ddwy ran o dair ohonynt, ac wrth iddo gynnwys yn ei restr ar gyfer “Bardd Alaw” yn 1826 nifer o alawon a oedd heb eiriau yn y *Melus-seiniau* a'r *Per-seiniau* gwelwn ei fod wedi darganfod geiriau ar eu cyfer; wrth yr alawon yn llaw Timothy Jehu yn llawysgrif NLW 1932E (gw. uchod) nododd John Jenkins (trwy gyfeiriad at lyfrau print) pa gerddi a fyddai'n taro; wrth ambell alaw yn y *Melus-seiniau* fe noda gerdd gyda sylw megis “would be very suitable” (e.e., ff. 79, 86⁴³); ni welir gwahaniaeth rhwng y geiriau a rydd John Jenkins ag eiddo'r testunau printiedig, onid mewn manion disylwedd. Y gresyn yn hyn oll yw y geill rhai o'r cerddi a briodir ag alawon gan John Jenkins fod yn rhai y clywodd eu canu, er gwaethaf y ffaith mai at ffynhonnell brint y cyfeiria, ond bod y briodas wedi mynd dan gwmwl yr amheuaeth gyffredinol: nid oes modd inni wahaniaethu.

John Jenkins oedd y casglwr cyntaf i roi dyledus barch i'r hen alawon fel cyfrwng geiriau. Yr oedd yn fawr ei barch at draddodiad llafar yr alawon. Ond nid ymddengys iddo osod yr un gwerth ar y geiriau a draddodwyd ar lafar, ac nid anodd deall pam. Ar gyfer y geiriau fe welai John Jenkins fod ffynonellau dilychwin mewn llyfrau print; ar gyfer yr alawon nid oedd ond y traddodiad llafar, neu offerynnol, i droi ato. Teg sylwi hefyd, wrth gwrs, nad oedd yn y traddodiad canu carolaidd unrhyw ddisgwyl i alaw fod yn perthyn i un gerdd yn unig.

Cynhwysfawr, ond heb fod yn gwbl gynhwystawr, ei gwmpas oedd casgliad John Jenkins. Mae modd meddwl am ddosbarthiadau o ganeuon gwerin nad ydynt yn cael eu cynrychioli ynddo. Gellir chwilio'n ofer am enghreifftiau o ganeuon cynyddol, hwiangerddi a, chydag un eithriad, ganeuon gwaith. Yr eithriad yw canu'r ychen. Gwelir o'r llythyrau yn Atodiad I fod John Jenkins yn rhoi gwerth arbennig i'r rhain, “the most curious” o'i holl gasgliad. Ond ai dylanwad “Iolo Morganwg” sydd ar waith yma? A syniadau ffasiynol am gyntefigrwydd hynafol? Ymddengys

ei frwdfrydedd am y rhain yn groes i agwedd arferol John Jenkins, un glasurol ei naw. Yn hwyr iawn yn y dydd y cynhwysodd yr alawon hyn yn ei gasgliad.

Os edrychir ar gasgliad o faledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fe welir enwi llawer iawn o alawon nas ceir yng nghasgliad John Jenkins, yn estroniaid gan mwyaf. Mae'n debyg fod nifer o'r rhain i'w clywed yn ei gyfnod ef, ond na ddewisai gynnwys y newydd-ddyfodiaid hyn. Hawdd deall hyn.

Bydd yn dda cloi'r ystyriaeth hon o darddiad y geiriau sydd yng nghasgliad John Jenkins trwy dynnu sylw at y dosbarthiadau o ganeuon y mae rheswm i dybied y geill y geiriau a gofnodir ar eu cyfer fod yn rhai dilys, yn yr ystyr y gallasant fod wedi'u codi oddi ar lafar ynghyd â'r alaw.

(i) Lle nad enwir ffynhonnell brint. Felly, cynnwys y *Melus-geingciau* i gyd (lle rhoddir geiriau), cyfran o'r *Melus-seiniau* ac, ar y tir hwn, dim byd o'r *Per-seiniau*.

(ii) Lle bo enw'r alaw yn tarddu o'r geiriau, hyd yn oed lle rhoddir ffynhonnell brint, e.e., "Barbara Wen", "Consumption", "Dydd da fo i'r 'eneth lan", "Gweddus yw'r gwedd-dod", "Gwiliwch a gweddiwch", "Lliw'r ceirios", "Sali blodau'r fro", "Y saith rhyfeddod" a "Y siaced fral".

(iii) Lle nad oes enw penodol, e.e., "Hen garol haf".

(iv) Lle bo gan John Jenkins nodyn awgrymog, e.e., y fersiwn ar y "Tri tharawiad" a gysylltir ag Edward Richard (gw. y dyfyniad uchod t.38); "Gofid glas" a "Mwynen Glan Teivi", y ceir "cetera desunt" wrth eu geiriau; "Mentra Gwen" (Gwynedd), y ceir wrthi ddau bennill ac "Inquire of Mrs Jenkins for the remainder of the song".

(v) Lle daw cadarnhad o gasgliadau eraill, e.e., "Morgan Jones o'r Doleu", a "Y ferch o'r Scer".

Ond hyd yn oed mewn perthynas â rhai o'r dosbarthiadau uchod mi fyddai modd dadlau ddwy ffordd.

Mae'n amlwg fod gan John Jenkins amcan am bwysigrwydd cofnodi gwybodaeth am darddiad yr alawon yn ei gasgliad. Mae'r teneuo a welwn ar y wybodaeth wrth drosglwyddo alawon o'r *Melus-seiniau* i'r *Per-seiniau* yn awgrymu fod rhyw swildod ynglŷn â chyhoeddi'r cwbl a gofnododd, er bod y nodiadau a anfonodd at "Fardd Alaw" wedi hynny yn dangos ei fod yn fodlon i gymaint â hynna ymddangos mewn chyhoeddiad. Yr oedd o flaen ei oes yn cofnodi'r wybodaeth hon o gwbl. Rhaid bod yn ddiolchgar iddo.

Gorffennwn trwy dynnu sylw at ddau beth ychwanegol o ganmoladwy am gasgliad John Jenkins. Yn gyntaf, yr eangfrydedd a oedd yn derbyn emyndonau a salmdonau i blith melus seiniau'r Cymry. Gwelai John Jenkins eu bod yn perthyn i'r traddodiad, er ei fod yn eu gweld yn ddirywiad arno (gweler ei sylw yn llythyr 1826 yn Atodiad I). Sylweddolai

sut yr oedd hen geinciau'n cael eu mabwysiadu gan gynulleidfaoedd eglwysig. Gweler, er enghraifft, ei sylw ar yr emyn-dôn "Jordan" yn llythyr 1826, neu, yn y *Melus-seiniau*, ei nodiadau ar yr emyndonau "Blaen y Waun" ("Twrgwyn" erbyn hyn), "Dyffryn Teivi" (ffurf ar "Moriah"), "Ebenezer" ("Trefdeyrn" yn awr) a "Rowlands" ("Joanna" yn awr) sydd yn eu cysylltu â'r alawon "Mentra Gwen", "Y frwynen las", "Difyrwch gwyr y Gogledd" a "Can mlynedd i 'nawr." Mae'r *Melus-seiniau*'n ffynhonnell bwysig ar gyfer astudiaeth ar ddatblygiad emyndonau Cymreig.⁴³

Yn olaf, er nad oedd John Jenkins yn byw mewn ardal lle ffynnai canu penillion "dull y Gogledd", na bod lle i feddwl bod ganddo ddiddordeb arbennig yn y grefft hon, fe gofnododd dan y teitl "Cudyn gwyn Ffrainc" bum pennill ar alaw hynod ddiddorol sydd yn amlwg yn osodiad datgeiniad. John Howell a'i cyfrannodd, o "Caerfyrddin". Cyhoeddwyd yn union yr un nodiant o'r gosodiad yn y *Cylchgrawn*, iv, 44-5, gan John Lloyd Williams, gyda sylwadau, eithr o gopi arall, a heb sylweddoli ei fod yn digwydd hefyd yn y *Melus-seiniau*. Rhaid mai'r un cysail sydd i'r copi a welodd John Lloyd Williams ac eiddo John Jenkins.

NODIADAU

1. Stephen J. Williams, *Ifor Ceri — Noddwr Cerdd (1770-1829)* (Abertawe, 1955), darlith a adargraffwyd yn Wyn Thomas (gol.), *Cerdd a Chân* (Dinbych, 1982), 148-167; Mary Ellis, "John Jenkins, Ifor Ceri, 1770-1829: Portread", *Yr Haul a'r Gangell*, 1976, Haf, 24-30, a Hydref, 24-9.
2. D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith y Parch Walter Davies A.C.* (Caerfyrddin a Llundain, 1868), ii, 414, 415.
3. *ibid.*, 415.
4. Llawysgrif NLW 1814E, f.113.
5. Ar wahân i'r ddwy ysgrif a nodir dan 1 uchod, gw. R.T. Jenkins a Helen M. Ramage, *The History of the Honourable Society of Cymmrodorion* (London 1951), pennod V, a Bedwyr L. Jones, *Yr Hen Bersoniaid Llengar* (Dinbych, 1963).
6. E.e., disgrifiad *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1940-); CCAGC, ii, 226.
7. Llawysgrif NLW 1893E, rhif 6, dyddiedig 31 Gorffennaf 1825.
8. Argreffir y dyfyniad o'r *Welsh Harper* uchod, gw. t.41.
9. Sef casgliad Dafydd Jones o Dre Friw, *Blodeu-Gerdd Cymry* (Amwythig, 1759).
10. Enwir "Mr Mathews of Tregynon" wrth "Y Foes".
11. Am deulu Richards Darowen gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Bywg. o hyn allan), s.n. Thomas Richards, ac, yn fwy manwl, Mary Ellis, "Teulu Darowen" *Journal of the Historical Society of the Church in Wales*, iii (1950), 120-139 a iv (1954), 58-88, a Mary Ellis, "Mair Richards Darowen (1787-1877): Portread", *Yr Haul a'r Gangell*, 1977, Hydref, 21-5, a 1978, Gwanwyn, 28-34.
12. Gw. *Bywg*.
13. Gw. *Bywg*.
14. Llythyr dyddiedig 3 Mawrth 1820 gan John Jenkins at W.J. Rees, Casgob, llawysgrif Caerdydd 3.104, cyfrol iv, f.13.

15. Ar dair dalen yn llawysgrif NLW 1932E, eitem 59 ac eitemau 60/1 a 60/6 fe nodir mewn un llaw 19 o alawon, gan gynnwys saith o'r naw a briodolir i "Jehu" yn y *Melus-seiniau*, a'r rheini wedi'u marcio gan John Jenkins. Ymddengys yr ysgrifen yn yr fath ag eiddo Timothy Jehu y mae llythyr oddiwrtho at John Jenkins yn NLW 1891E, rhif 8. Bu Timothy Jehu yn athro ysgol ym Meifod yn ystod y cyfnod 1808-38. Am yr ach, a manylion am deulu Jehu, gw. NLW 17447E.
16. Gw. *Bywg*. s.n. Cain Jones a John Edwards. Cafodd John Jenkins alawon eraill gan John Cain wedi iddo roi heibio'r *Melus-seiniau*. Mae nifer ohonynt yn NLW 1932E, eitemau 60/4 a 62. A gweler y cyfeiriad yn llythyr 1828 John Jenkins at John Parry (Atodiad I isod).
17. Gw. *Bywg*.
18. Llawysgrif NLW 1936B, eitem 3, tt.9, 11.
19. *Y Gwylidydd*, ii, 30.
20. *ibid.*, ii, 255.
21. *ibid.*, ii, 286.
22. Sef "Caer Droeca", "Difyrwrch Maurice Wynn o Wydir", "Ffarwel Llanllyfni" a "Gwêl yr adeilad".
23. Mae modd eu holrhain yn Atodiad II isod.
24. Llawysgrif NLW 1891E, rhif 57.
25. Llawysgrif NLW 1891E, rhif 58.
26. Sef "Blodau'r faenol" (ond gw. yn Atodiad II isod), "Creigiau'r Gadair" a "Maeth afon".
27. John Parry ("Bardd Alaw"), *The Welsh Harper*, cyfrol ii (London, 1848), "Note 6" ar dudalen heb rif yn dilyn y *Preface*.
28. Llawysgrif NLW 1889Ei, rhif 106.
29. Llawysgrif NLW 1889Ei, rhif 107.
30. *Hwyrach fod y cyfeiriad yn llythyr 1828 at "No. 68 in the first collection I sent you" yn awgrymu i'r ail gael ei anfon, felly hefyd y sôn am "one of the collections you have"*.
31. Llawysgrif NLW 1893E, rhif 81.
32. Gw. Atodiad II isod. Am nifer o resymau rhaid i'r cyfrif fod yn ansicr. Yn wyneb yr holl newid enwau alawon dichon imi fethu â gwneud y cysylltiad mewn rhai achosion. Gan i John Parry altro alawon yn ôl ei fympwy, nid oes modd bod yn gwbl bendant ynglŷn â tharddiad ei fersiynau. Yn achos ychydig iawn o alawon yn Atodiad II y mae amheuaeth gref; dynodir hyn gan ofynnod.
33. Gw. *CCAGC*, ii, 123, 168 a 243; iii, 37, 39 a 51.
34. *The Welsh Harper*, cyfrol ii, 39.
35. *Cambrian Journal*, i (1854) 156-9, 239-242, 354-5; ii (1855), 64-5, 94-6, 282-3; iv (1857), 50.
36. Tyst i brysurdeb Maria Jane Williams yw'r copïau llawysgrif (ond nid yn ei llaw hi) o'r alawon a ddetholwyd o gasgliad John Jenkins ac sydd i'w cael, ynghyd â phroffenni'r alawon o'r *Cambrian Journal*, yn llsgrau NLW 15168D a 16075E, dwy lawysgrif sy'n cynnwys mân bapurau cerddorol MJW a'r Arglwyddes Llanover.
37. Gweler ei sylw yn llythyr 1826 yn Atodiad I isod. Yn llawysgrif NLW 1936B, eitem 2, mae ganddo (ar bapur â dyfnod 1823) restr "Welsh tunes wanted to which appropriate words are found". Cynnwys enwau chwech o alawon, i gyd o'r *Blodeu-Gerdd*.
38. Mae amryw o enghreifftiau o gynganeddu tonau eglwysig ganddo yn llawysgrif NLW 1932E. Cynganeddodd ambell alaw yn y *Melus-seiniau* a'r *Per-seiniau*.
39. Gweler ysgrif sylfaenol Peter Crossley-Holland, 'The Tonal Limits of Welsh Folk Song', *CCAGC*, v, 46-73, a'r ystadegau yn ei atodiadau 8 a 14. Rhaid sylwi fod Crossley-Holland yn cynnwys yn y sampl ar gyfer ei astudiaeth y rhan fwyaf o'r alawon o gasgliad John Jenkins sydd wedi eu cyhoeddi yn y *Cylchgrawn*, rhyw wythfed ran o'r sampl. Gan imi ddangos na ellir derbyn fersiynau John Jenkins yn rhai ffyddlon, camarweiniol oedd eu cynnwys yn y sampl; mae angen addasu ystadegau Crossley-

- Holland. Canlyniad hyn fyddai dangos cyfartaledd uwch byth i'r alawon moddol a gostwng yn sylweddol ar gyfartaledd yr alawon yn y leiaf harmonig. Ceir tystiolaeth bwysig gan un a oedd yn deall y pethau hyn mewn adroddiad ar ymweliad John Curwen â Chymru yn 1864: sonnir am sut yr oedd cynulleidfaoedd Cymreig yn gwastad ymrwrthod â'r leiaf ac yn mynnu canu yn y modd doraidd. Gw. *Tonic Sol-fa Reporter*, Mawrth 1864, 219, a dyfyniad yn R. Nettel, *Sing a Song of England: a Social History of Traditional Song* (London, 1969) 205-6.
40. "Ffarwel Llanllyfni" ac "Anhawdd Ymadael newydd" yn y *Melus-seiniau*, ff. 184v a 186.
 41. E.e., "English tune" am "Rhywbeth arall i wneuthur" ac "Irish tune" am "Bryniau Gwerddon" (*Melus-seiniau*, ff. 78, 114). Yn llawysgrif NLW 1932E, eitem 69/4, mae ganddo restr "English tunes which have Welsh words composed to them" yn cynnwys 27 o alawon.
 42. Yn y *Melus-seiniau* cyfeirir droeon, ar gyfer cerddi beirdd Dyfed, at "MS". Llawysgrif NLW 19B, un a fu ym meddiant John Jenkins, oedd hon. Cyhoeddwyd llawer o'i chynnwys gan John Howell yn *Blodau Dyfed* (1824). At y gyfrol honno y cyfeirir yn y *Per-seiniau*.
 43. Mae peth o ddeunydd crai Rhan I y *Melus-seiniau* yn NLW 1932E. Yn NLW 1938B (sydd â dyfnod papur ei dail rhwymo yn dwyn y dyddiad 1821) ceir detholiad o salmdonau ac emyndonau wedi'u tynnu o'r *Melus-seiniau*, ac ychydig o rai newydd. Mae perthynas y detholiad hwn o donau â'r *Melus-seiniau* yn cyfateb i eiddo'r *Per-seiniau*.

SUMMARY

The above is an account of the manuscript collection of Welsh folk music made by John Jenkins, "Ifor Ceri" (1770-1829). The three main manuscripts are described: Melus-geinciau Deheubarth Cymru (NLW, J. Lloyd Williams MS 36), somewhat of a pilot collection, made about 1815, contains 56 tunes collected by John Jenkins, 13 with words; Melus-seiniau Cymru (NLW MS 1940A i), compiled about 1817-20 with additions to 1825, is the main collection and contains 100 psalm and hymn tunes current in Wales and 173 other traditional tunes, mostly associated with words for which references to printed sources are given; Per-seiniau Cymru (NLW MS 1940A ii) contains 101 tunes, 52 of them selected from the Melus-seiniau, 48 with words, and was compiled in 1824-5.

The article identifies John Jenkins's main informants and discusses the use made of his collection by others, notably John Parry, "Bardd Alaw", who printed over a hundred of his tunes in volume II of The Welsh Harper (1848), capriciously altering them and changing titles.

The virtues and limitations of John Jenkins's collection are discussed. Its primary virtues are that it is the first systematic collection of Welsh folk music in which tunes are recognised as a vehicle for words; it is the largest such collection before the 20th century; it frequently names informants and localities and sometimes adds important circumstantial information about

songs. The value of the collection is reduced, with respect to the music, by John Jenkins's ignorance of modal scales. His tunes are all in the major or minor and the tonality of all those noted in the minor has to be suspect. In this regard, those of them printed in the Society's Journal constitute a distorting element in Peter Crossley-Holland's article "The Tonal Limits of Welsh Folk Song" (vol. v, 46-73), where they form about an eighth part of his sample. With respect to the words there is a general difficulty in deciding whether those for which printed sources are given are in fact those which were heard sung.

**D.S. Yn ein rhifyn nesaf y cyhoeddir y ddau atodiad i'r erthygl uchod, sef:*
Atodiad I:

Adysgrifiadau o rannau o ddau lythyr (dyddiedig 11 Chwefror 1826 ac 11 Chwefror 1828) a anfonodd John Jenkins at John Parry ("Bardd Alaw").

Atodiad II:

Mynegai i'r alawon yn nhair prif Isgr. John Jenkins, a hefyd i'r rheini ohonynt a atgynhyrchwyd yn ddiweddarach mewn cyfrolau printiedig.

**N.B. The two appendices to the above article will appear in our next issue:*


Appendix I:

Transcripts of parts of two letters (dated 11 February 1826 and 11 February 1828) sent by John Jenkins to John Parry ("Bardd Alaw").

Appendix II:

An index of the tunes in the three main MSS of John Jenkins, and also of those of them which were subsequently reproduced in printed volumes.

1. Y GINI MELYN BACH (The Little Yellow Guinea)



Chwi bo-bl bri-od, dowch yn nes, Gwran-dewch fy nghân fel
gwir; Te-by-gol yw gwnaf i-chwi les, Ni wnaif eich ca-dw'n
hir;— Rwy'n greff-twr da yn byw mewn tref, Rwyf
am gael pe-thau'n iawn;— Dydd Llun di-we-ddaf
gel-wais fy ngwraig Gan ddweud, "Rhaid cyf-ri'n llawn!"

O Lsgr. J. Lloyd Williams 115 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cân ydyw o gasgliad Soley Thomas ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1910, ac fe'i casglwyd ganddo ef oddi wrth rhyw Evans o Goginan, ger Aberystwyth. "Well known in rural Cardiganshire" yn ôl JLIW, a gwyddys i ffurf ychydig yn wahanol ar y geiriau fod yn boblogaidd ar daflen faled Gymraeg fel pennill agoriadol "Ymddiddan rhwng y Wraig Ddiddan a'r Gŵr Boddlongar ynghylch Traul y Ty".

From MS. J. Lloyd Williams 115 at the National Library of Wales. The song comes from Soley Thomas's collection for the Colwyn Bay National Eisteddfod, 1910, and he obtained it from a singer at Goginan, east of Aberystwyth. "Well known in rural Cardiganshire" notes JLIW, and a slightly different form of the above text appeared on "ballad" pamphlets as the opening stanza of an amicable enough dialogue between husband and wife concerning the housekeeping expenses.

2. FFAIR DINAS YR HAF (Dinas's Summer Fair)



Me - he - fin, yr ail ddydd, Mi go - dais yn dra bo - re, Gan



fynd i ben y ffridd I gyr - chu'r gwar - theg ad - re, Fy



mwr - iad oedd yn fawr Am fynd i Ddi - nas Maw - ddwy, Ar



ôl i'n ddod i lawr, I [wer - thir*] fawch fe - lyn - ddu**

*Ychwanegwyd gan/Added by J. Lloyd Williams ***"gelynddu" yn y llsg./in the MS.

Enghraifft arall o Lsg. JLIW 115 a chasgliad Soley Thomas. Nodir yn llawysgrifen JLIW: "Geiriau Hywel Llanygors — 25 verses — sung by Will Thomas" a hefyd (am y dôn) "Cf Liza lan". Ni welwyd penillion ychwanegol i'r gân.

Another item from MS. JLIW 115 and the Soley Thomas collection. JLIW notes simply that the text — of 25 stanzas — was by some Hywel of Llan-y-gors, that the song was sung by some Will Thomas, and that the tune is to be compared with that of "Lisa Lân". Additional stanzas for the song have not been encountered.

3. LLADD Y WEIRGLODD WAIR

(Mowing the Hay Meadow)



Mi gwr-ddais â merch i-fanc Yn dy-fod ad-re-g'r ffair; Cy-



nig-iodd i mi han-ner co-ron Am ladd ei gweir-glodd wair.

2. Pe cawn i swnd a bloneg / I roddi ar fy rhip,
A minnau'n fachgen ifanc: / Danhoswn iddi drip*! [*dric?]

O Lsgr. J. Lloyd Williams 115 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casglwyd gan JLIW (o bosibl tua 1915) o ganu Evan Rowlands, cigydd, Aberystwyth, a hanai o ardal Mynydd Bach, ger Tregaron. Dywed JLIW: "Tune evidently the same formula as many of the Sailors Farewells". Am y geiriau noda: "etc. V.P. [sef "Very Poor"?] words" — fe welir mai cân o ddelweddaeth rywiol sydd yma! (Cymh. "Hen Ladi Fowr Benfelen" yn *Caneuon Llafar Gwlad*, gol. D. Roy Saer, 34).

*From MS. J. Lloyd Williams 115 at the National Library of Wales. Collected by JLIW (around 1915, possibly) from the singing of Aberystwyth butcher Evan Rowlands, who was a native of the Mynydd Bach district, near Tregaron, mid-Cardiganshire. JLIW notes: "Tune evidently the same formula as many of the Sailors Farewells". Of the text he adds: "etc. V.P. [denoting "Very Poor"?] words" — the song is, of course, one of sexual metaphor (Cf. "Hen Ladi Fowr Benfelen" / "A Buxom Blonde Lady" in *Caneuon Llafar Gwlad*, ed. D. Roy Saer, 34).*

4. CHWARTER TÔN (Quarter Tune)



O Lsgr. J. Lloyd Williams 115 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Casglwyd gan JLIW (yn 1916, mae'n debyg) o ganu rhyw D. Humphreys, Aberystwyth. Clywsai ei fam yntau hi 80 mlynedd yn gynharach mewn tŷ tafarn, yn cael ei chanu, heb unrhyw eiriau, gan ffarmwr a alwai'r gân wrth yr enw uchod.

From MS. J. Lloyd Williams 115 at the National Library of Wales. Collected by JLIW (in 1916, probably) from the singing of some D. Humphreys of Aberystwyth. 80 years previously the singer's mother had heard it at a public-house, being sung, without any words, by a farmer who called the song by the above name.

5. MAE'R WYTHNOS YN HIR

(The Week is Long)



"My - fi sydd yn gwe-led yr wyth-nos yn hir: Dydd



Llun yw'r dydd cyn-taf, ar dor-iad y dydd, Dydd



Mawrth fel dwy fly-nedd, dydd Mer-cher fel tair, A



min-naw, fy nghar-iad, heb gly-wed un gair."

2. "Mi fûm yn dy garu yn fawr* ac yn fawr [**fan?*]
Ni allwn fod hebot un munud o'r awr;
Ond nawr rwyf yn caru merch arall yn fwy,
Mi allaf fod hebot am flwyddyn neu ddwy!"
3. "Os gelli fod hebdda'-i am flwyddyn neu ddwy,
Ar f'enioes, fab ifanc, ti gei fod yn hwy:
Tyf glaswellt ar lwybrau, tyf ef(y)r ar lyn,
Cyn ceisiaf dy gwmni byth byth ar ôl hyn!"

O Lsgr. J. Lloyd Williams 115 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Nodir yno "Copyright Songs JLIW Sept. 1935" a hefyd "Tune and part of the words, Guto Wms. Porth: words Cynwil Evans".

In blunt dialogue sequence, the brisk end of a lover's affair. From MS. J. Lloyd Williams 115 at the National Library of Wales, in which the only comments provided are "Copyright Songs JLIW Sept. 1935" and "Tune and part of the words, Guto Wms. Porth: words Cynwil Evans".

6. MI FUAIS YN MEDI'R CYNHAEA'

(I Used to Reap the Harvest)



Mi fu-ais yn me-di'r cyn-hae-a', A di-lyn yr a-rad yn



hwyr, A dyr-nu ar am-bell i fo-re: Ni leic-ies i da-maid o'r



swydd,— Ni leic-ies i da-maid o'r swydd.—

O Lsgr. AWC 1269, casgliad y Fonesig Herbert Lewis, yn Amgueddfa Werin Cymru. Mae'n debygol fod hon yn un o'r caneuon a gasglwyd gan Mrs Herbert Lewis yn ne-orllewin Cymru yn 1913. Ni chroniwyd penillion ychwanegol.

A rueful look back by a former farm-servant at his detested labours. From MS. WFM 1269, the Lady Herbert Lewis collection, at the Welsh Folk Museum. This was probably one of the songs collected by Mrs Herbert Lewis in south-west Wales in 1913. Additional stanzas are not known.

7. **DI DIDL LAN**
(Dee Deedle Lan)



Di di-dl lan dan dw-dl di-dl lan dan do, Di
lan dan dw-dl di-dl lan dan do, Di lan dan do, Di
lan dan do, Di lan dan dw-dl di-dl lan dan do.

O Lsgr. AWC 2505/5, casgliad y Fonesig Herbert Lewis, yn Amgueddfa Werin Cymru. Llythyr yw'r llawysgrif hon, a anfonwyd at Mr Herbert Lewis ym Medi 1921 gan Mr C. Ifor Rowlands, Bryn Myfyr, Gwyddelwern, Corwen. Cynhwysir ynddo'r gân uchod, gyda'i halaw mewn nodiant Sol-ffa heb ei fario. Dywedir i'r gân gael ei chanu gan nain Mr Rowlands a'i mam hithau o'i blaen. Sylwer, gyda llaw, mai fersiwn yw'r alaw ar gytgan "Gwnewch Bopeth yn Gymraeg".

From MS. WFM 2505/5, the Lady Herbert Lewis collection, at the Welsh Folk Museum. This MS. is a letter that was sent to Mr Herbert Lewis in September 1921 by Mr C. Ifor Rowlands of Gwyddelwern, near Corwen, Merioneth. It includes the above song, with its melody in Sol-fa notation, unbarred. The song is said to have been sung by the sender's grandmother, and her mother before her. The tune is obviously a variant of the chorus of the ubiquitous "Gwnewch Bopeth yn Gymraeg".

8. I YSGAFNHAU EIN GWAITH

(To Lighten Our Work)



Yn sŵn y si-swrn fin-iog fawr Yn cu-ro ar y laps-ton



lein* Fe ga-nwn nin-nau gân o awr i awr I ys-gafn-hau ein



gwaith; I ys-gafn-hau ein gwaith, I ys-gafn-hau ein gwaith, Fe



ga-nwn nin-nau gân o awr i awr I ys-gafn-hau ein gwaith.
[*laith?]

O Lsgr. AWC 1459/162, casgliad Mrs Dora Herbert-Jones, yn Amgueddfa Werin Cymru. Ymddengys iddi gael ei nodi — ni wyddys pa bryd — gan Aubrey Roberts, Wrecsam, a'i clywsai gan ei nain yn y Mwynglawdd 24 blynedd yn gynharach. Adysgrifwyd uchod o nodiant Sol-ffa, nad oedd yn cyfleu cyweirnod na rhythm.

An industrial workers' song from north-east Wales. From MS. WFM 1459/162, the Dora Herbert-Jones collection, at the Welsh Folk Museum. Apparently noted — when is not known — by Aubrey Roberts, Wrexham, who had heard it from his grandmother in nearby Minera 24 years earlier. The above music was transcribed from Sol-fa notation, which indicated neither key nor rhythm.

NEWYDDION CWTA

Cwrs Penwythnos 1985: 27-29 Medi, ym Mhlas Gregynog, Powys, a darlithiau gan Rhidian Griffiths, Dafydd Iwan a Meredydd Evans, ynghyd â rhaglen deyrnged i'n diweddar Lywydd a hefyd sesiwn o gân a chainc a stori.

Cyhoeddiad gan y Gymdeithas: D. Roy Saer, *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru/The Welsh Folk-Song Society, 1908-1983* (48tt., pris £1.75). Llyfryn dathlu 75ain pen blwydd y Gymdeithas.

Cyfrolau diweddar eraill: Aled Lloyd Davies, *Hud a Hanes Cerdd Dannau* (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, 1984, 108 tt., pris £2.50). Cyfrol ddathlu 75ain pen blwydd y Gymdeithas.

Hugh Shields, *A Short Bibliography of Irish Folk Song* (Cumann Cheol Tíre Éireann/Cymdeithas Canu Gwerin Iwerddon, 1985, 24tt.). Ei phris yw IR £1.50 (£1 i aelodau), ynghyd â 22c am ei phostio, a gellir ei chael trwy Nicholas Carolan, Ysgrifennydd CCTE, 15 Henrietta Street, Dilyn 1.

Dracht (o dan olygyddiaeth Dafydd Rhys), y cylchgrawn newydd sy'n olynnydd i *Sgrech*.

An Autumn in Wales (1856) gan Julius Rodenberg (wedi ei chyfieithu a'i golygu gan William Linnard, Y Bont-faen, 1985, 184 tt., 28 llun, pris £6.50). Ymateb llenor Almaenig i'r wlad a'i phobl, a'u harferion a thraddodiadau gwerin.

Recordiau/Casetiau: 4 yn y Bar, *Byth Adra* (Sain 1308M/C908N); Plethyn, *Caneuon Gwerin i Blant* (Sain 1309M/C909N); Bwchadanas, *Cariad Cywir* (Sain 1306M/C906N); Calennig, *Dyddiau Gwynion Ionawr* (Sain/Cambrian 1325M/C935N); *Ar Log IV* (Recordiau Ar Log, RAL 001); a *Gorau Gwerin* (Sain 1278H/C878G).

Rhaglenni teledu a radio: Cychwynnir ail gyfres "Gwraidd y Gainc" ar sianel deledu S4C tua diwedd Awst, tra parheir i ddarlledu rhaglen "Gwerin", gyda Gwyndaf Roberts, yn gyson ar Radio Cymru bob nos Fawrth (10.20—11.30) a "Folk on Monday", gyda Geoff Cripps, ar Radio Wales bob nos Lun (10-11).

Gwyliau i ddod: Gŵyl Werin Pontardawe. 16-18 Awst; Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival), Merthyr Tudful, ddiwedd Hydref.

Gŵyl Gerdd Dant Glannau Llŵchwr, Pontarddulais, 16 Tachwedd.

NEWS IN BRIEF

1985 Weekend Course: 27-29 September, at Gregynog Hall, Powys, with lectures by Rhidian Griffiths, Dafydd Iwan and Meredydd Evans, together with a programme of tribute to our late President and also a session of song, tune and tale.

A Society Publication: *D. Roy Saer*, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru/The Welsh Folk-Song Society, 1908-1983 (48 pp., price £1.75). The booklet produced to celebrate the Society's 75th birthday.

Other recent volumes: *Aled Lloyd Davies*, *Hud a Hanes Cerdd Dannau* (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, 1984, 108 pp., price £2.50). The volume produced to celebrate the Society's 50th birthday.

Hugh Shields, *A Short Bibliography of Irish Folk Song* (Cumann Cheol Tíre Éireann/Folk Music Society of Ireland, 1985, 24 pp.). Its price is IR£1.50 (£1 for members), plus 22p. postage, and it is obtainable through *Nicholas Carolan*, Hon. Secretary of CCTE, 15 Henrietta Street, Dublin 1.

Dracht (under the editorship of *Dafydd Rhys*), the new journal to succeed *Sgrech*.

An Autumn in Wales (1856) by *Julius Rodenberg* (translated and edited by *William Linnard*, Cowbridge, 1985, 184 pp., 28 illustrations, price £6.50). A German writer's response to the country and its people, and their folk customs and traditions.

Records and Cassettes: *4 yn y Bar*, *Byth Adra* (Sain 1308M/C908N); *Plethyn*, *Caneuon Gwerin i Blant* (Sain 1309M/C909N); *Bwchadanas*, *Cariad Cywir* (Sain 1306M/C906N); *Calennig*, *Snowy Days of January* (Sain/Cambrian 1325M/C935N); *Ar Log IV* (Recordiau Ar Log, RAL 001); & *Gorau Gwerin* (Sain 1278H/C878G).

Television and radio programmes: A second series of "Gwraidd y Gainc" on the S4C television channel starts around the end of August, while "Gwerin", with *Gwyndaf Roberts*, continues regularly on Radio Cymru every Tuesday evening (10.20 — 11.30), as does "Folk on Monday", with *Geoff Cripps*, on Radio Wales every Monday evening (10-11).

Festivals to come: *Pontardawe Folk Festival*, 16-18 August; *Gŵyl Werin Cymru* (Welsh Folk Festival), *Merthyr Tudful*, late October. *Gŵyl Gerdd Dant Glannau Llchwyr*, *Pontarddulais*, 16 November.

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chwi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu, cadw a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ugain rhifyn o'i Chylchgrawn, gan gynnwys dros 500 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau (gan arbenigwyr o Gymru a gwledydd estron), trafodaethau a chanu. Tua mis Hydref, hefyd, llwyfennir Gŵyl Werin Cymru, gŵyl undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru a'n Cymdeithas ninnau.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £4 i Oedolion, £6 i Wŷr a Gwragedd ynghyd, a £1 i Blant, sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas.

Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw:

Mr Rhidian Griffiths, Iscoed, Ffordd Caradog, Aberystwyth, Dyfed.

Ffôn: (0970) 3401.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research-work. By today, over twenty numbers of its Journal have appeared, including over 500 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures (by specialists from Wales itself and other countries), discussions and song. Around October, too, in conjunction with the Welsh Folk Dance Society, it stages the one-day Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival).

Annual subscription is £4 for Adults, £6 for Husbands and Wives jointly, and £1 for Children, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society.

Our Membership Secretary is:

Mr Rhidian Griffiths, Iscoed, Ffordd Caradog, Aberystwyth, Dyfed.

Tel. (0970) 3401.



2330162

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.